

ECO'R WYDDFA

RHIF 375

MAWRTH 2010

PRIS 50c

LLAMFF 2010 GŴYL FFILMIAU MYNYDDA LLANBERIS

Daw'r copi hwn o'r "Eco" o'r wasg ar benwythnos brysur yn hanes y byd mynydda yn y fro. O ddydd Gwener hyd ddydd Sul, 5ed i'r 7fed o Fawrth cynhelir gwyl ffilmiau yn Llanberis. Mae'r wyl yn bodoli ers 2002, a'r syniad gwreiddiol oedd ei chynnal bob dwy flynedd, ond mae erbyn hyn mor boblogaidd fel ei bod yn cael ei chynnal yn flynyddol.

Yn ôl y trefnwyr, pwrpas yr wyl yw hybu, hyrwyddo a dathlu diwylliant y mynydd trwy gyfrwng ffilm, ffotograffiaeth, llê a darlithoedd. Mae'r gwahanol gyfryngau hyn i gyd yn cael eu defnyddio i'r eithaf yn ystod y penwythnos.

Cynhaliwyd cystadleuthau yn cael eu noddi gan rai o'r prif gwmnïau sy'n ymwneud â mynydda. Yn y categori ffilm, roedd angen cyflwyno ffilm dros 14 munud ar y thema

'Mynydd'.

Roedd tri categori gwahanol yn yr adran ffotograffiaeth: 'Mynyddoedd', 'I'r Eithaf' a 'Bywyd Gwyllt y Mynyddoedd'. Rhoddir gwobr ym mhob categori, ond bydd un wobwr am y llun gorau o'r cyfan.

Mae nifer helaeth o siaradwyr gwâdd; amryw yn son am wahanol brofiadau yn dringo mewn sawl lleoliad led-led y byd, gan gynnwys Machu Piccu ym Mheriw. Ymhlith y



siaradwyr bydd Stephen Venables, y Prydeiniwr cyntaf i goncro Everest heb ocsigen. Bydd sgwrs hefyd gan Paul Gannon, awdur "Rock Trails in Snowdonia". Mae'm byw'n lleol, ac mae ei lyfr wedi gwerthu yn arbennig o dda, oherwydd ei fod yn cyfuno teithiau cerdded yn Eryri gyda gwybodaeth ynglyn â daeareg yr ardal a'r modd y mae'r creigiau wedi helpu i ffurfio'r dirwedd. Siaradwr arall fydd Elfyn Jones o Frynrefail yn son am hanes y timau achub mynydd yn Llanberis.

Yn hytrach na chynnal un arddangosfa o waith creadigol gwahanol arlunwyr a ffotograffwyr, bydd gwahanol siopau Llanberis yn arddangos gwaith Rob Piercy, Gareth Roberts a Geraint Thomas (ffotograffwyr lleol) a Steve Green (arlunydd lleol).

AR DRYWYDD Y DRINGWYR

Ar fore Sadwrn, 6ed o Fawrth am 11.30, yn dilyn dangos y ffilm "Dringo'r Dom" yn y Mynydd Gwefru, bydd llyfr Cymraeg gan Dewi Jones o Benygroes yn cael ei lansio. Mae'r awdur yn hen law ar

groniclo hanesion yn ymwneud ag Eryri, ac eisoes cyhoeddodd "Tywysyddion Eryri".

Yn y gyfrol newydd hon o'i eiddo, ceir crynodeb o hanes datblygiad mynydda yn Eryri a hefyd mewn ardaloedd mynyddig eraill. Er fod nifer helaeth o haneswyr mynydda wedi trin a thrafod datblygiad y grefft dros y blynyddoedd, y duedd oedd cyflyru'r darllenwyr i gredu mai yn Ardal y Llynnoedd yng ngogledd Lloegr y datblygodd. Ond roedd dringfeydd o safon uchel iawn yn digwydd ar Y Lliwedd, Tryfan a'r Gluderau erbyn diwedd y bedwaredd ganrid ar bymtheg.

Y mae'r gyfrol hon yn rhoi sylw haeddiannol i'r Cymry - yn ddynion a merched - a ddaeth i amlygrwydd fel mynyddwyr a dringwyr. Rhwir sylw hefyd i'r estroniaid a hudwyd yma gan aryniadau'r mynyddoedd. Mae'r gyfrol yn llawn digwyddiadau cyffrous - nid yn unig yn Eryri, ond hefyd ar fynyddoedd yr Himalaya a gogledd America.

Un o ddringwyr gorau Cymru yn y cyfnod diweddar, Eric Jones o Dremadog, ysgrifennodd gyflwyniad i'r llyfr. Bydd ar werth am ddecupnt, ac yn llawn gwerth pob ceiniog.

braslun o hanes cynnar mynydda

**Ar Drywydd
y Dringwyr**

DEWI JONES



*Cyflwyniad
gan
Eric Jones, Tremadog*

ECO'R WYDDFA

RHIF 375

MAWRTH 2010

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i**

Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minalt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS SUL 21 MAWRTH

Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU EBRILL 1af

Dyddiad Gosod
Nos SUL 28 MAWRTH
Sefydliad Coffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Gosod	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Ionawr	Sul 21 Mawrth	Sul 28 Mawrth	Iau 1 Ebrill	Cwm y Glo	Iris Rowlands	

Llythyr

CYNGERDD Y PASG

7 Nant Ffynnon,
Nant Peris,
LL55 4UG

*Dathlu'r Pasg hefo Wil Tân yng
Nghapel Rehoboth, Nant Peris*

Annwyl Olygydd,
Ysgrifennaf i ddiolch i bawb a fu mor hael yn y cyngerdd i helpu merched y Wladfa yng Nghapel Rehoboth, fis Gorffennaf. Eleni eto mae croeso cynnes i chi i gyngerdd arall, y tro hwn gyda'r anghymharol Wil Tân ar nos Sul y Pasg, (4ydd o Ebrill) am 7 p.m.

Bydd Wil yn canu y ffefrynau i gyd: 'Y Border Bach', 'Cloch y Llan', 'Rwy'n clywed y llais', 'Pwy fydd yma mhen can mlynedd?' (a'r 'Eglwys Fach Dawel' hefo Elwyn Hogia'r Wyddfa).

Y tro hwn, y nod fydd helpu Cristnogion sydd wedi ffoi o Irac, ac i herio diawled creulon Y Swyddfa Gartref ac Asiantaeth y Ffin, sy'n bygwth eu gyrru yn ôl i sefyllfa o berygl mawr.

Ers rhyfel 2003, mae bron i ddwy fil o Gristnogion wedi eu lladd yno gan y terfysgwyr mewn gweithrediadau o ddialedd. O'r 200 o eglwysi a oedd ar agor, mae na ffrwydradau wedi bod mewn 65 ohonynt. (22 ohonynt ers Ionawr 2008).

Bydd y mynediad am ddim, ond gwerthfawrogi gyfraniadau o £5 neu fwy at yr achos. Byddwn yn rhannu'r arian rhwng y rhai ohonynt sydd mewn cyfyng gyngor yn y wlad hon, a chronfa i helpu ffoaduriaid Cristnogol o Irac. Bydd panad cyn y cyngerdd, am 6 p.m.

Am ragor o fanylion, ffoniwch 01286871218 neu 07718982732 neu ebostio eilian@talktalk.net Yn ddiffuant,

EILIAN WILLIAMS

GWEFAN AM DDIM

Annwyl olygydd,
Ysgrifennaf i dynnu sylw eich darllenwyr at gyfle gwych i gael gwefan fach AM DDIM i grwpiau a chymdeithasau o bob math ar Golwg 360.

Bydd nifer o'ch darllenwyr yn ymwybodol o'r gwasanaeth newyddion dyddiol Cymraeg www.golwg360.com. Dyma wasanaeth cwbl arloesol sydd erbyn hyn yn cyhoeddi rhwng 30 a 40 o straeon newyddion a chwaraeon o bob math yn ddyddiol, a hynny'n gyfan gwbl trwy gyfrwng iaith y nefoedd.

Erbyn hyn, mae yna adran newydd wedi ei hychwanegu i'r gwasanaeth o'r enw Lle Pawb. Bwriad Lle Pawb yw cynnig cyfle i grwpiau, cymdeithasau ac unigolion greu gwefan fach er mwyn hyrwyddo eu newyddion diweddaraf. Mae'r system yn un sydd wedi ei chynllunio i fod yn rhwydd i'w defnyddio, hyd yn oed i rai sydd ag ychydig iawn o brofiad o ddefnyddio'r we. Mae'r cyfarwyddiadau oll yn Gymraeg hefyd.

Dyma gyfle gwych i bob math o grwpiau gael presenoldeb o fewn datblygiad arloesol Golwg 360. Mae yna eisoes nifer o ysgolion, capeli, clybiau chwaraeon, eisteddfodau lleol, grwpiau cerddorol, llenorion, artistiaid ac ati ar y safle, felly buaswn yn annog pawb i gymryd mantais o'r cyfle arbennig hwn.

Dyma hefyd gyfle i mi dynnu sylw'r darllenwyr at galendr Golwg 360, sy'n gyfle gwych i hyrwyddo unrhyw ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal.

Os oes angen rhagor o fanylion ar unrhyw un, yna mae pob croeso iddynt gysylltu a mi ar 01570 423529 / owainschiavone@golwg.com, neu wrth gwrs ymweld â www.golwg360.com

Yn gywir iawn,
OWAIN SCHIAVONE
(Prif Weithredwr Golwg 360)

RHODDION

£20: Gwilym Williams, Bryn Eifion, Ffordd yr Orsaf, Llanrug; Er cof am John Olav Williams, Ty'n y Coed, Llanrug; Er cof am Ken Jones, 7 Green Terrace, Deiniolen.

£10: Eileen Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug; Teulu'r diweddar Maldwyn Ll. Jones, Llanberis; Audrey Evans, 2 Bryniau Gerddi, Llanberis.

£8.50: Mrs R. E. Griffiths, Y Drennewydd.

£5: Ann a David Pen Parc, Bethel; Ian Pierce, Swyn yr Awel, Llanrug; June Jones, Rhandir Mwyn, Llandwrog; Anne a Bert Parry, Sycharth, Preswylfa, Llanberis; Derek Jones, 62 Maes Padarn, Llanberis; Wilbert Davies, 7 Rock Terrace, Llanberis; Alun a Maureen, 32 New Street, Deiniolen; Ted Morris 16 Maes Padarn Llanberis; Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc, Brynrefail; Renee Davies, Hafod Lydan, Llanberis.

DIOLCH

Dymuna Haf Thomas ddiolch i drigolion Bro'r Eco am gyfrannu tuag at ei hymgyrch codi arian unwaith eto.

Diolch yn arbennig i Fand Deiniolen a Chôr Cylchau'r Grug. Mae £1,220 wedi cael ei gyflwyno i Gymdeithas Strôc Môn ac Arfon.

Hyd yma mae Haf wedi codi £42,000 i elusennau lleol. Llongyfarchwn hi ar ei hymdrech ardderchog!



TACLUO CWN
Busnes Newydd Lleol

**PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10**

DYDD SUL 8YB-4YB
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Cyngerdd y Pasg i helpu Cristnogion Irac

Capel Rehoboth, Nant Peris

am 7:00pm

nos Sul y Pasg, 4ydd Ebrill 2010

hefo WIL TÂN

Hefyd: Elwyn (Hogia'r Wyddfa) ac Elin Mai

Bydd paned cyn y cyngerdd.

Mynediad am ddim, ond gwneir casgliad.

Manylion: 01286 871218 neu 07718982732

PARTI ERYRI YNG NGHAEATHRO

Ble'r aeth y blynyddoedd ers inni droedio tua festri Caeathro ddiwethaf? Mewn ychydig roedden ni'n griw bywiog y saithdegau unwaith eto, neb yn gweld y rhychau a phawb yn llawn bwrllwm. Roedd y festri wedi 'myned yn iau wrth fyned yn hŷn' ac yn dipyn gwahanol i'n man cyfarfod wythnosol, ond roedd y chwerthin yn dal i ddiabedain.

Yr achlysur hirddisgwyliedig oedd gweld fideo o waith Rol Williams, arweinydd llwyfan y nosweithiau llawen niferus gyda Pharti Eryri, wrth inni deithio ar hyd a lled Cymru a thu hwnt. Cadwodd Rol pob tocyn, poster a thoriadau papur newydd. Mae'n amlwg iddo gymryd misoedd i wneud y cyfanwaith awr a hanner gwyh. Defnyddiodd luniau a chaneuon oddi ar recordiau Parti Eryri, darnau o raglenni teledu fel *Hob y Deri Dando* ac *Ysgubor Lawen*, ffilm

o'r parti ar lwyfan Ysgol Brynrefail yn ogystal â ffilmiau a dynnodd o'r ardal yn gefndir i'w gyflwyniad llafar. Yn drawiadol cafwyd lluniau o'r mannau a enwyd yng ngeiriau'r caneuon, megis Dinas Dinlle ac Aberdaron. Campwaith yn wir. Y newydd da yw ei fod am gyflwyno'r Cryno Ddisg i'r Archifdy.

Wrth wrando ar y ffilm atgoffwyd ni i Barti Eryri gael ei ffurfio gan Ifor Hughes, Caeathro, yr arweinydd cerddorol fu wrth y llyw tan y diwedd yn 1988. Y cyfeilydd gwreiddiol oedd y diweddar Richard H. Morris (Hogia'r Wyddfa) a Marcia Thomas, Llanberis, a'i dilynodd, gyda'i gallu i guddio ffaelddau sawl piano damp yn y neuaddau bychain! Roedd cymaint o amrywiaeth yn ein rhaglen gan fod nifer o unawdwy'r o safon yn aelodau. Perfformiwyd



deuawdau a cherdd dant yn ogystal ag adroddiadau hefyd. Ffurfiwyd dau grŵp ysgafn, 'Y Rhoswyr' a 'Genod Ni' o blith yr aelodau. I goroni'r cyfan roedd y sgethis yn donic gwell na photel o ffisig a'r pen-digrifwr oedd Deiniol Hughes. Cawsom hefyd gwmni Trefor Selway fel arweinydd arall gwyh.

Mynegodd Alwyn Jones,

Caeathro, a Lis Roberts (Llanberis gynt), ein diolchiadau i swyddogion y capel ac i Marcia ac Anne Parry Jones ac eraill am y baned. Roeddem i gyd yn llawn edmygedd o waith dyfal-barhaus Rol. Cewch fwy o hanes Parti Eryri a'r troeon trwstan mewn pennod gyfan yn hunangofiant y cyflwynydd, *Nid Roc, Ond Rol*.

MARGARET WYN ROBERTS

TALENT NEWYDD YN 'PETE'S EATS' LLANBERIS

Mae Pete Norton, perchennog y caffi Pete's Eats yn Llanberis, yn symud i'r UDA. Mae Tom Potter, sydd wedi bod yn gweithio yn y caffi am sawl blwyddyn, fydd y perchennog newydd.

Teimlad Pete yw fod yr amser wedi dod iddo gael blas ar ymgyrch newydd, a mae'n ymddiried yn ngallu Tom i redeg y busnes. Dywedodd Tom ei fod,

'Yn edrych ymlaen at gynyddu ansawdd y bwyd heb newid yr awyrgylch cyfeillgar sydd mor enwog. Rydym am ddechrau agor yn hwyr yn hwyrach yn y flwyddyn, ac hefyd am ymdrechu i wneud y busnes yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd,' meddai

Mae Tom yn diogelu agweddau gora'r caffi, gan




Pete (ar y chwith) a Tom yn nrws y stafell fawr yn Pete's Eats.

gynnwys yr awyrgylch cyfeillgar a'r amrediad ardderchog o fwyd (gan gynnwys llawer o brydau llysiuol a figan), ond mae o hefyd yn arloesi gyda sawl pryd newydd i'r fwydlen (a llawer o

gacennau newydd hefyd!).

Mae'r broses o olrhain hyd yn oed mwy o gynnyrch yn lleol wedi dechrau yn barod; mae hyn yn hybu yr amgylchedd a'r economi lleol.

Gwybodaeth Cyswllt
Gwefan:
www.petes-eats.co.uk
E-bost:
pete@petes-eats.co.uk
Ffon:
01286 870117



Alun Ffred Jones

Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth

8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076

70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948

alunffred.jones@cymru.gov.uk

Y BWTHYN TÉ
pen y ceunant isaf
LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



*Nadolig
i bawb*

PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR WAELODION
LLWYBR YR WYDDFA (O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18ed. GANRIFF. CEWCH GROESO
ARBENNIG YMA, YN OGYSTAL A GOLYGFYDD
GWYCH DROS LLYN PADARN A
DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbwl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606

www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk



**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

UN FUNUD FACH

TOYOTA

Cymerwyd yr ystadegau canlynol o Arolwg Ceir Blyneddol diwethaf cylchgrawn WHICH Cymdeithas y Defnyddwyr.

Y Brand Gorau – Toyota: 6ed
Dibynadwydd – Toyota: 3ydd

Doedd y canlyniadau hynny ddim yn ddrwg o gwbl. Diddorol hefyd oedd sylwi o'r arolwg bod 95% o berchnogion ceir Prius Toyota yn fodlon ar y model arbennig hwnnw.

Doedd y fath ganlyniadau ddim yn syndod, wrth gwrs. Hyd y cofiaf, dim ond canmoliaeth a glywais i geir Toyota ers blyneddoddd. Ond, ers yr hydref mae'r cwmni hwn, sydd erbyn hyn yn gwerthu mwy o geir na'r un cwmni arall, mewn trafferthion. Mae diffygion rhai o'i fodelau, yn cynnwys y Prius, wedi gorfodi Toyota i alw ar berchnogion mwy na 8 miliwn o geir i'w dychwelyd, er mwyn eu cywiro. Amser a ddengys pa effaith a gaiff hyn oll ar y cwmni dros y misoedd nesaf. Ond beth bynnag y gwendidau a'r rhesymau drostynt, go brin fod ceir da wedi dod yn geir sâl dros nos.

Ar un ystyr, o gofio'r miliynau o geir a gynhyrchir bob blwyddyn, mae'n syndod nad yw pethau fel hyn yn digwydd yn amlach. Gwahanol iawn yw hi gyda phobl. Nid ambell frand ac ambell fodel sy'n ddiffygiol yn ein plith ni. Mae yna ddiffyg mawr ym mhob un ohonom. Petai pobl yn geir, byddai pawb ohonom wedi cael ein 'galw'n ôl'. Oherwydd mae'r nam sydd ynom yn golygu nad ydym yn gweithio fel y dylem. Daw hynny'n amlwg bob dydd wrth i ni ddweud a gwneud cymaint o bethau sy'n groes i feddwl a bwriad Duw ar ein cyfer. Mae'r nam hefyd yn golygu perygl mawr gan ei fod yn creu

diflastod a chwalu dedwyddwch, ac yn difetha ein perthynas â phobl eraill ac â Duw.

Mae'r diffygion sy'n peri bod Toyota a chwmnïau eraill yn gorfod 'galw ceir yn ôl' yn amrywiol. Nid yr un yw'r broblem gyda phob brand a phob model. Mae'r diffyg sydd ynom ni fel pobl yn dod i'r amlwg mewn gwahanol ffyrdd a thrwy wahanol bechodau a wnawn bob dydd. Ac eto, yr un yw'r diffyg sylfaenol ym mhawb drwy'r byd i gyd. Methiant pobl i garu Duw a phlygu i'w awdurdod yw'r broblem fawr; a delio â'r broblem honno y mae Duw trwy'r 'galw mawr yn ôl' a geir yn Efengyl ei Fab Iesu Grist.


JOHN PRITCHARD

CEUNANT

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Siân a Graham Land, Marvista, ar enedigaeth eu mab, Owain Eifion, yn ddiweddar - brawd bach i Siôn ac Osian.

Yr iaith ar waith! Be nesaf? Tybed ple mae upper FaKwen?



Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth barwb yn

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870088**

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

SWIGOD A SEBON



ORIAU AGOR
6 a.m.–7.30 p.m.
(Llun–Sadwrn)
6 a.m.–3 p.m. (Sul)

Cyfresi Natur ac Amgylchedd Eryri

Mae pobl yn mwynhau gweithgareddau awyr agored yn yr amgylchedd, wrth eu hunion natur, ond beth a wyddant am y byd naturiol sydd o'u cwrpas? Yn aml, gall cyfle i ddysgu am fyd natur tra byddir yn yr awyr agored ennyn diddordeb mewn ecoleg a chodi awydd i ddysgu mwy. Gall hefyd chwalu'r rhwystrau a greir gan iaith wyddonol a jargon, fel y daw gwyddoniaeth yn ystyrion ac yn gyffrous.

Mae dysgu yn yr awyr agored wedi'i ddogfennu'n dda o ran yr effeithiau cadarnhaol a gaiff ar ffyniant personol, cymdeithasol a chorfforol unigolion, a deallir y buddiannau hyn ar lefel genedlaethol, wrth i'r llywodraeth lansio mentrau i hyrwyddo defnydd yr awyr agored ar gyfer iechyd.

Hyd yn oed os nad yw unigolion yn teimlo'n angerddol tuag at yr amgylchedd naturiol, mae angen iddynt wybod rhywbeth, gan mai codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ynglŷn â byd

natur yw'r ffordd orau o sicrhau ei ddyfodol yn y tymor hir. Wedi'r cwbl, oni bai fod byd natur yn iach, ni fyddai unrhyw ddiwydiant awyr agored. Er mwyn i bobl fwynhau ac yn gwarchod byd natur, mae angen rhoi mwy o sylw i'r gwaith o hyrwyddo ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r amgylchedd.

Mae Dysgu Gydol Oes ym Mhrifysgol Bangor yn cynnal cyfres o ysgolion undydd ecoleg a daeareg, am ffi lawn £45, ffi ostyngedig £20 yr un. Arweinir yr ysgolion undydd ecoleg gan Jim Langley a bydd y rhai daeareg o dan ofal Paul Gannon, awdur Rock Trails Snowdonia. Saesneg fydd cyfrwng yr ysgolion undydd. Ceir ychydig o ostyngiadau ar gyfer pob ysgol undydd, ar sail y cyntaf i'r felin. Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan Dysgu Gydol Oes:

<http://www.bangor.ac.uk/ll/events.php.cy> neu ffoniwch 01248 382708.

Eira 2010

Erstalwm adroddem – 'Yr od, yr od mae'r eira'n dod...' golud gaem mewn byd gwyn lle cuddid pob craith dan drymlwyth ei glo droa'r tomennydd yn sgerbydau syn! Blwyddi braf-sicr y wynfydedig fro - ond ôl troed y tadau yn dringo'r rhiw - gweddiem bob nos am fwy ganddo Fo pleser y bysedd llosg a'r gruddiau lliw...

Pan ddeuai dydd y dadmer – a throi'n stomp 'r ôl traed; a rêlwê trol yn ffrydiau dŵr - mud fyddai'r gelltydd ac âi lle bu'r rhomp dros gof tymhorau – doi rhyw newydd stŵr...

Ond – gadawodd ynof ymwybod clir, daw du 'r ôl gwyn – a phaid pob hwyl – cyn hir.

NORMAN CLOSS
(Fach Wen)

'Yr od yr od' o gerdd Ceiriog 'Yr Eira Cyntaf'
'y wynfydedig fro' disgrifiad Hobly o'r Fach-Wen yn
Hanes Methodistiaeth Arfon.

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul

**THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS**

with droed yn Wyddfa

Ffôn: **0870 832 9903**

O SLAMBAR SELWYN

Mae 'na amryw wedi cysylltu hefo fi ar ôl i mi gyhoeddi y llythyr caru a dderbyniais gan Beti Bur ychydig cyn y Nadolig. Amryw yn fy llongyfarch am fod mor lwcus a derbyn llythyr o'r fath a minnau dros fy mhedwar ugain mlwydd oed. Un neu ddau yn cydymdeimlo hefo fi hefyd, ac yn poeni am Myra, rhag ofn i mi gael fy nhemtio i syrthio i grafangau Beti.

Ond does dim raid poeni am hynny. Roedd Myra a finna, y penwythnos diwetha, yn dathlu ein Priodas Aur. Ydi mae'n anodd coelio bod hanner canrif wedi mynd heibio ers diwrnod ein priodas yng nghapel Croes-y-Waun, Waunfawr.

Na, does gan Beti, er mor bur ydi hi, ddim gobaith i ddenu hen wr fel fi hefo'i llythyr caru. Ond mi dderbyniais llythyr arall ganddi pan osodwyd testun yn Eisteddfod Gadeiriol Bodffordd, Ynys Môn, flwyddyn neu ddwy yn ôl. Gofynnwyd am llythyr at yr Archdderwydd yn gwneud cais am gael dod yn aelod o'r Orsedd. Be ydi'ch barn chi am gymwysterau Beti Bur i gael y Wisg Wen?

Wel, diolch i'r drefn, os daw cais arall gan Beti Bur am gael dod yn aelod o'r Orsedd, problem Jim Parc Nest fydd hi bellach. Dyma'r llythyr cais, a diolch i Beti am ei diddordeb.

Pob lwc iddi.

* * * * *

Ty Gwryf
Stryd Anobaith
Crychlyd
Cymru

Annwyl Archangel,
naci Archesgob,
naci Archdderwydd,
Haia del, sut wyt ti 'top man'?
Dwi ddim am gnocio rownd y perthi, ond am ddod yn syth at y pwynt - dwi ishio bod yn membr o'r Orsedd, plis.

Nes i benderfynu awr yn ôl ar

ôl gweld y peth ar y bocs o'r Steddfod. O rown i wedi mopio yn lân. Yn wir dwi wedi bod yn teimlo'n down ar ôl i Pero farw, ac wedyn yn cael fy ngwrthod gan 'Easy Dating', Merched y Wawr a'r W.R.V.S.

Felly pan welis i'r digwyddiad lliwgar yma yn llawn o ddynion del mewn dillad neis (debyg i'r Ascot Scene o My Fair Lady) dyma fi yn neidio i'r awyr nes baglu dros fy slipars tŷ - 'This is it,' gwaeddais.

Ers yn blentyn dwi wedi licio steil, yn enwedig gweld proshions a bacgrownd miswig, a ritiwals a petha. A dallda di, dwi'n dda iawn yn Welsh ac yn medru sgwennu poems. Dwi'n Gymraes thrw and thrw a nes i brynu y Cymro unwaith, a dwi'n prynu gwerth chweugain o raffls Plaid Cymru bob Dolig. A gwranda di ar hyn, ma gin i flwmars a'r ddraig goch ar i ffrynt nhw. Bei ddy we, pwy ydi'r co del 'na ar y ffrynt mewn dillad aur a dail rownd i ben o? Ufflwm o hync.

Tydwi ddim yn un am frolio ond mi faswn i yn aset mawr i'r Orsedd. Dwi'n ifanc (wedol), yn siapus ac yn glên, ac yn egspryt am wneud bara brith a Welsh cecs. Dwi'n rhydd i fynd i bob un Steddfod. Mae gin i lais canu da, ac yn medru chwara Hen Wlad fy Nhada mewn solffa hefo un bys. Dwi hefyd wedi gweld fy ngwaith mewn print - ces byblishio llythyr yn 'Take a Break' ar sut i blicio nionod heb grio (rho grystyn yn dy geg).

Dwi'n llawn o eiddas modern, a byswn i yn newid lliwia y dillad o wyn, glas a gwyrdd i oren, fuschia a lemon. A damia yr hen gerrig llwyd hyll 'na, mi faswn yn i sbreo nhw yn aur i gyd. Dyma fy C.D. i ti gal gweld pa mor glyfar ydw i.

May Queen Dothan 1971, 3rd Leader Majorettes 1978, 4ydd am gneifio yn Siou Môn, 1af am odro yn Sioe Nefyn a cydradd

4ydd am ganu ar y bys pan es i am drip Tyrcei and Tinsel y llynedd.

Get this, 'top man', dim jyst sleeping pardnyr faswn i, ond un sy'n sefyll ar ei thraed, ac nid yn gorwedd ar ei chefn yn meddwl am England. Hefyd dwi realy with it hefo Welsh Affers. Dwi'n planio mynd ar yr 'IEUAN AIR' o Fali Eirport i Cardiff i'r Cynulliad i weld Lembo Optic a rheina i gyd.

Os wyt ti ishio reffrens, fedri di gal un gin Twm o'r Pest Control a Huw o Nacro. Does gen i ddim car offensys am fod

gynno fi ddim car a dwi'n licio Mr Brainstormy Top Cop.

Erbyn rwan mi wn dy fod wedi rialeishio pa mor ffantastic ydwi. So dwi am roi home perm i fy hun heno yn barod erbyn y Steddfod nesa.

Plis ga i fod yn aelod o orsadd yr Eisteddfodau, Er nad wyf wedi graddio, na'i fyhafio fatha dwi fod.

Diolch yn fawr iti boi - mi welai di wrth y meini. All the best

BETI BUR

P.S. thanciw--thanciw--thanciw (a sawl cusan)

CLWB GARDADIO Tŷ GWYDR

Cychwynnwyd y Clwb Garddio naw mlynedd yn ôl gan y Cadeirydd presennol, Keith Edwards, a oedd ar y pryd yn gweithio i Fenter Fachwen. Rydym nawr yn grŵp annibynnol sy'n cyfarfod ar y dydd Mercher cyntaf o bob mis yn y Caban, Brynrefail. Rydym yn grŵp bach o amaturiaid sydd â diddordeb ym mhob agwedd o arddio.

Rydym yn ffodus i gael amrywiaeth o siaradwyr a gweithgareddau eraill megis cwis, barbeciw a chinio Nadolig. Nid oes tâl blynyddol, ond codir tâl o £2 ym mhob cyfarfod sy'n cynnwys paned a raffl.

Mae'r tymor newydd yn dechrau ym mis Mawrth. Ein siaradwr gwadd fydd Medwyn Williams, Llanfairpwll. Sylwer, am y mis yma yn unig, cynhelir y cyfarfod nos Iau 4ydd Mawrth.

Hoffwn estyn gwahoddiad i ddarlennwyr yr Eco i ymuno â ni. Ni ddisgwylir i chi fynychu bob cyfarfod. Dewch i flasu'r rhaglen a gweld pa weithgareddau sydd o ddiddordeb i chi.

Am fwy o fanylion ffoniwch 01286 870194 neu 01248 671243.

Byddem yn croesawu aelodau newydd.

GWASANAETH GOFAL CARTREF

Caredig^{cyf}

GOFALU AM EIN CYMUNEDAU

- ASESU MEWNOL A CHYNLLUN GOFAL
- GOFAL PERSONOL-BATHIO
- CYMORTH I GODI A MYND I'R GWELU
- EISTEDD YN YSTOD Y DYDD A GYDA'R NOS
- GLANHAU • SIOPA • COGINIO • OWTIN
- CEFNOGI POBL
- CYSYLLTU A GWASANAETHAU ARBENIGOL

A ydych yn hoffi gweithio a phobl neu ffansi gyrfa newydd?

•Mae Caredig Cyf yn awyddus i gyflogi pobl lleol i weithio gyda'n cwmni. Mae hyfforddiant a chefnogaeth trwyadl ar gael. Rydym yn rewrto yn gyson fel mae'r cwmni yn ehangu ac angen gweithwyr i weithio unai rhan amser, amser llawn neu gyda'r nos. Am fanylion pellach cysylltwch a-

Iola neu Ellis Wyn Jones ar-

Bangor 01248 672622 • Llun i Gwener • Oriau'r Swyddfa 9-5pm.

UNED F3 • INTEC • FFORDD Y PARC • PARC MENAI • GWYNEDD LL57 4FG
FFON-01248 672622 • FFACS- 01248 672601
EBOST- post@caredig.com

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260



PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD

CANOL DYDD

A GYDA'R NOS

Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

BRYSIWCH **WELLA.**
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Arvon Jones, 4 Llys y Gwynt.

YSGOL GYMUNED. Apêl Haiti. Cynhaliwyd Bore Coffi i godi arian i'r apêl ddydd Llun, 1 Chwefror. Yn ogystal cafodd y plant gyfle i wisgo gwisg ffansi a gwerthwyd cacennau yn ystod egwyl y bore. Casglwyd £289.25c a bydd yr arian yma yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa trwy law Eurgain haf o Gymdeithas Cronfa Achub y Plant (Cronfa Haiti). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

LLONGYFARCHIADAU
Anfonwn ein dymuniadau gorau i Mrs Sharon Ray a'r teulu ar achlysur genedigaeth merch fach, Indeg Elin. Mae pawb yn edrych ymlaen i'w gweld yn yr ysgol yn fuan.

CRONFA PENSIYNWYR. Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Ionawr oedd Mrs Carole Porter, 4 Bron y Waun efo rhif 22. Llongyfarchiadau!
GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Mrs Fitch, Commercial Cottage, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

EISTEDDFOD CYLCH YR URDD. Pob dymuniad da i bawb fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod gan obeithio y daw llwyddiant ysgubol fel llynedd i chwi.

YSGOL SUL BOSRA.
Dymunir iachâd buan i Mr Evie Jones, Arolygwr yr Ysgol Sul, wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Roedd y plant yn colli eich cwmni, Mr Jones, ac yn edrych ymlaen at eich gweld yn ôl yn fuan.

Ein cofion annwyl fel aelodau'r Ysgol Sul ac aelodau'r Capel at Nansi Jones, Meillionydd, organyddes y capel, wedi ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac Eryri ond sydd bellach yn ôl ar ei haelwyd ei hun.

Bu 'dwylo prysur' gan y plant yn ddiweddar yn creu cardiau Santes Dwynwen, San Ffolant a Dewi Sant. Mae amser prysur eto o'u blaenau gyda Chymanfa'r Annibynwyr ym mis Mai a Chymanfa'r Methodistiaid ym mis Mehefin. Cynhelir y ddwy Gymanfa yma ym Mosra eleni. Mae'r Ysgol Sul wedi cyfrannu £100 i Gronfa Achub y Plant Haiti drwy law Eurgain Haf, Swyddog Hysbysrwydd y Gymdeithas.

GWELLHAD. Dymunir adferiad iechyd buan i bawb sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar - daw'r gwanwyn yn y man i godi'r galon.

PWYLLGOR NEUADD.
Tynnwyd Clwb Cant Chwefror a'r enillwyr oedd: Geraint Williams, Careb a Gethin Green, Tan y Coed.

Y gweithgaredd nesaf i godi arian tuag at y Neuadd Gymuned fydd 'Disgo Pasg' gyda help ieuenctid y pentref. Bydd diod a chŵn poeth ar werth, ynghyd â raffl, enwi'r gwningen, addurno het Pasg a bwrdd Tombola. Felly cofiwch y dyddiad, nos Iau, 25 Mawrth rhwng 6.30 a 8.00 o'r gloch. Cost mynediad fydd £1.

Yn mis Mai, bwriedir cynnal 'Hwyl a Sbrî' i bawb. Dyddiad i'w nodi yw dydd Iau, 20 Mai.

PWYLLGOR APÊL E I S T E D D F O D GENEDLAETHOL YR URDD 2012. Cynhaliwyd Pwyllgor cyntaf Apêl Brynrefail a Phenisarwaun yn Ystafell Gymuned yr ysgol a braf oedd croesawu 18 o wirfoddolwyr brwdfrydig. Bwriedir rhannu llythyrau dwyieithog i bob tŷ ym Mhenisarwaun a Brynrefail yn gofyn yn garedig am gyfraniad ariannol. Bu'r ymateb i'r weithgaredd hon yn hynod o galonogol yn ystod Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Nantlle ac hefyd Eisteddfod Genedlaethol Eryri yn y Faenol.

EGLWYS SANTES HELEN.
Dydd Gwener y Groglith.
Cynhelir Awr Dawel a Myfyrdod am 2.00 o'r gloch.
Sul y Pasg. Gwasanaethir y Cymun Bendigaid fore Sul gan

y Parchedig Lloyd Jones am 11.00 o'r gloch.
DAWNSIO LLINELL.
Cynhelir Dawnsio Llinell bob nos Iau yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 yr hwyr.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED.
Daeth cangen leol Sefydliad y Merched ynghyd i'r Caban nos Iau, Chwefror 18fed. Y siaradwyr gwadd oedd Melvin a Glenda Jones o Wasanaeth Ambiwllans Awyr Cymru.

Ymysg y rhai cyntaf yn gysylltiedig â'r gwasanaeth hwn a sefydlwyd dros bum mlynedd yn ôl, cafwyd sgwrs ddiddorol dros ben ganddynt am y gwaith arbennig gyflawnir i achub bywydau.

Edrychir ymlaen at y Cinio Gŵyl Ddewi blyneddol nos Lun, Mawrth 1af, yng Ngwesty'r Bull, Pentraeth.

Mae paratodau ymlaen hefyd ar gyfer Fair Grefftau Porthmadog ar Fai 8fed, pryd bydd yr aelodau yn coginio cacennau cwpan ar gyfer eu stondin yn y Ffair.

Bydd y gangen yn cymryd rhan yn y dyfodol agos mewn Triathlon NFWI. Bydd yr aelodau yn dewis cerdded, nofio neu feicio gyda rhestr o'r goreuon yn cael eu cofnodi a'u hanfon ymlaen i NFWI i gystadlu yn erbyn Sefydliadau eraill. Ymlaen gyda'r ymarfer!
PROFEDIGAETH. Gyda gofid yr ydym wedi deall yn y pentref am farwolaeth Elsie Glabik (Williams gynt). Ymfudodd Elsie a'i phriod Paul a'u meibion, Peter, Bernard a Paul o 1 'Rallt i Toronto, Canada flynyddoedd maith yn ôl. Yn anffodus collwyd Peter yn fachgen ifanc trwy ddamwain lori. Bu Elsie farw ar Ragfyr 28ain 2009 a bu farw ei phriod, Paul, ar Ionawr 20fed 2010. Profedigaeth drist i'r meibion o golli eu rhieni mor agos i'w gilydd.

Hefyd anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at Malan Williams, chwaer yng nghyfraith Elsie, sydd ar hyn o bryd yn cartrefu yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD OEDFA GYMUN. Y Parch Marcus Robinson, Bethel, oedd yn gwasanaethu yn yr oedfa hon ar Chwefror 7fed, pryd y gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd. Cofwyd yn arbennig yn ystod yr oedfa am y ddiweddar Gracie Alwena Williams, Llanddona, a fu farw yr wythnos flaenorol, fel un a fu'n gwasanaethu yn ffyddlon yn y pulpud ym Mrynrefail am lawer o flynyddoedd. Ond yn

fwyaf arbennig yn yr oedfa hon, 'roedd y Lliain Cymun hardd o'i gwaith a gyflwynodd i ni fel Eglwys wedi i ni symud o'r Capel i'n safle bresennol yn allweddol i'n coffadwriaeth ohoni. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i phriod, Elwyn Williams, a ymunai gyda ni yn ein haddoliad yn ystod eu hymweliadau, yn ei brofedigaeth.

COFION. Nid yw dau o'n blaenoriaid wedi bod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar. Rydym wedi colli presenoldeb Richard Wyn Evans o'r oedfaon yn ystod y gaeaf caled hwn. Mae Jennie Angharad Roberts wedi bod yn dioddef o anhwylder yn ddiweddar ac mae ei lle yn wag yn y gwasanaethau. Dymunwn atgyfnerthiad iechyd i'r ddau. Roeddym yn falch o groesawu Robert John Williams i'n hoedfaon yn ystod mis Chwefror, yn amlwg wedi gwella ar ôl derbyn llawdriniaethau.

LLESTRIR CAPEL. Yn dilyn gwerthu adeiladau'r Eglwys a didoli celfi, mae nifer o lestri gyda enw'r capel arnynt yn dal yn ein meddiant. Os dymuna unrhyw aelod neu gyn-aelodau dderbyn unrhyw eitem cysyllter â Lowri Roberts Williams.

OEDFAON MAWRTH

- 7: am 5.30, Parch Reuben Roberts, Bontnewydd
14: am 5.30, Y Parch Harri Parri, Caernarfon
21: am 2.00, Y Parch D. John Pritchard, Llanberis
28: am 5.30, Mr Richard Lloyd Jones, Bethel

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

*Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal*

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

**Blodau
Racca**

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

LLANRUG

Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

CROESO I LANRUG. Dymunir croeso mawr yn ôl i Lanrug i Mrs Eleri Griffith, Pencraig, Ffordd Glanffynnon, Foelas gynt. Mae wedi bod oddi yma ers 52 o flynyddoedd! Pob dymuniad da i chwi.

DIOLCHIADAU. Dymuna Gwilym Williams, Bryn Eifion, ddiolch yn fawr unwaith eto i bawb am bob caredigrwydd a dderbyniodd yn dilyn ei arhosiad yn Ysbyty Glan Clwyd ac wedi dod adref.

FE DDYMUNA teulu y diweddar John Olav Williams, Ty'n y Coed, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a'r rhoddion a dderbyniwyd tuag at Gronfa'r Nyrsys Cymunedol.

Cydymdeimlwn â chwi fel teulu yn eich profedigaeth.

CYDYMDEIMLO. Bu i Mr Hywel Williams, Deiniolen, farw yn ddiweddar a chydymdeimlwn â'i ferch, Jennifer, a Gareth, Glanffynnon, ac â Nigel, Bryn a Iola Non a'u teuluoedd hwythau. Colled fawr i chi i gyd.

Yn sydyn iawn, bu farw tad Karen Williams, 4 Glan Moelyn. Cydymdeimlwn â chwithau a'ch teulu i gyd.

Collodd Mrs Megan Axon, Hafan Elan, ei chwaer yn y Bontnewydd hefyd. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch a'r teulu i gyd.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb Cant mis Ionawr oedd: £20: C. Evans, 9 Nant y Glyn; £7: E. Roberts, 3 Bryn Moelyn; £5: Mrs E. Jones, 4 Hafan Elan.

CRONFA OGO8. Dymuna Ian ddiolch yn ddiffuant i Edwina Jones, Trigfan, Y Garnedd, Llanfairpwll; Hogia Dydd Mawrth (Cymdeithas Golff) a ffrindiau eraill am eu rhoddion hael i OGO8 ar gyfer gwaith ymchwil i ganser gynecologol, er cof am ei ddiweddar briod, Eirlys Pierce,

Swyn yr Awel.

Derbyniwyd swm o £250 gan Edwina a £700 gan Hogia Dydd Mawrth. Cyflwynwyd siec am dros £1,000 i Mrs S. C. Leeson, Arbenigwr Gynecologol, Ysbyty Gwynedd yn ystod Chwefror.

DYMUNA Cemlyn a Gwenan ddiolch i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion dderbyniodd Elliwyd Pys ar ei genedigaeth ym mis Rhagfyr.

PLAID CYMRU. Yng nghanol Mis Chwefror y dathlwyd Gŵyl Ddewi eleni gan Gangen Llanrug o Blaid Cymru, a hynny er mwyn cael cwmni'r Aelod Seneddol prysur a gweithgar, Hywel Williams, yn ŵr gwadd. Pleser hefyd oedd cael croesawu Elin, aelod o'i staff yn Llundain. Treuliwyd noson hapus yng ngwesty'r Seiont Manor yn mwynhau gwledd o fwyd ac o anerchiad. Soniodd Hywel am ei waith yn San Steffan, a'r pwysigrwydd o gael nifer dda o Aelodau Seneddol Plaid Cymru yno i siarad a gweithio dros fuddiannau Cymru. Disgrifiwyd y tri aelod presennol ym mhapur yr Independent yn ddiweddar fel y 'fearsome threesome'!

Enillwyr raffl y noson oedd Gwyn Jones, Goronwy Hughes, Leslie Larsen, Haf Thomas, Eryl Roberts a Meirwen Lloyd.

Enillwyr y Clwb Cant am fis Rhagfyr 2009 oedd: 1. Arwel Jones; 2. Ifanwy Jones;

Ionawr 2010: 1. Megan Williams; 2. Carys Jones.

Chwefror 2010: 1. Gwyn H. Jones; 2. Margaret Roberts.

LLONGYFARCHIADAU i Siôn Emyr Wynne, Fron Hyfryd Ucha, Llanrug ac Elin Jones o Rhosfawr ger Y Ffôr, Pwllheli, ar eu dyweddiad. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

MARWOLAETH. Ar yr 22ain o Chwefror, bu farw Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon. Rydym yn

anfon ein cydymdeimlad llwyrat at ei phriod, Mr Iolo Llewelyn, a'i chwaer, Miss Emily Hughes. Gobeithio y cewch nerth i'ch cynnal yn ystod y dyddiau anodd yma.

CAPEL Y RHOS

Oedfaon mis Mawrth

7: Y Gweinidog

14: Mr. John Hugh Hughes

21: Y Gweinidog

28: Parch. Harri Owain Jones

Am 2 o'r gloch brynhawn dydd Gwener, Mawrth 5ed, cynhelir Cyfarfod Gweddi byd-eang y chwiorydd yn y festri. Mae croeso cynnes i bawb ac fe fydd lluniaeth ysgafn ar ddiwedd yr oedfa. Gwneir casgliad eleni tuag at waith y merched yn y Camerwn.

YSGOL GYNRADD

Llongyfarchiadau i dîm pêl-rwyd yr ysgol am ddod yn fuddugol yng Nghystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd. Pob hwyl iddynt yn y rownd derfynol yn Aberystwyth a diolch i Miss Catrin Jones am eu hyfforddi.

Cynhaliwyd diwrnod Pyjamas i godi arian tuag at drychineb y daeargryn yn Haiti. Llwyddwyd i godi £500 o bunnoedd - y drafferth fwyaf oedd cadw'n effro ar ein traed!

Bu Blwyddyn 1 a 2 yn ymweld â Fu's, y tŷ bwyta Tsineaid yng Nghaernarfon, i ddathlu Blwyddyn Newydd y Tsineaid. Buont yn gwyllo'r cogydd yn coginio pryd o fwyd ac yna'n cael cyfle i flasau pryd o fwyd. Bu'n ddiwrnod llwyddiannus iawn.

Bu Deian Wyn Williams yn fuddugol mewn cystadleuaeth Pencampwriaeth Cymru i Offerynnau Pres a gynhaliwyd yn y Galeri yng Nghaernarfon. Llongyfarchiadau mawr iddo.

Pob hwyl i bob un o'r plant sydd yn cystadlu yn Eisteddfodau Cylch yr Urdd a diolch i'r hyfforddwy.

YR YSGOL GYNRADD. Yn dilyn arolwg gan Estyn ym mis Hydref, mae Ysgol Gynradd Llanrug bellach wedi derbyn yr adroddiad llawn.

Llongyfarchiadau mawr i'r staff, y Pennaeth a'r plant ar gael adroddiad ardderchog ym mhob agwedd. Mae hyn yn adlewyrchu ymroddiad ysgol gyfan i gyflawni'r gorau ar gyfer y plant.

MERCHED Y WAWR. Estynnwyd croeso cynnes i bawb nos Fawrth, 9 Chwefror, gan y Llywydd, Margaret Parry. Braf oedd gweld Eileen wedi gwella a balch oeddyr o glywed fod Ifan, gŵr Helen, yn teimlo'n well.

Llongyfarchiadau i Meirwen Lloyd ar ei hethol yn Is-Llywydd Rhanbarth Arfon. Bu Mair Huws a'r Llywydd yn cadw'n ddistaw! yng Nghaernarfon er budd yr anabl a dymunir diolch i'r ddwy

ohonynt.

Cyhoeddwyd bod yna dripiâu o dan nawdd yr Adran Gelf i Aintree ar 24 Ebrill ac yna i Birmingham yn yr hydref. Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth yn Ysgol Friars ar 8 Mai a gofynnir am enwau yn ddiymdroi erbyn 1 Ebrill, Pris: £20.

Diolchir i nifer o'r aelodau fu'n cynorthwyo yn y Caffi yn Eisteddfod Cylch yr Urdd ar Sadwrn, 27 Chwefror, a diolchir i bawb a gyfrannodd tuag ar y caffi.

Fe fwynhaodd nifer o aelodau o'r gangen gyfieithiad o ddrama Harold Pinter - 'Gofalwr' a lwyfannwyd yn Neuadd Dwyfor, nos Fercher, 24 Chwefror.

Gwestai'r mis oedd Wendy Thomas, sydd bellach yn byw yn Llanrug. Bu gwyllo brwd ar raglenni Dudley 'Casa Dudley 2008' gan mai Wendy a enillodd gyda'i choginio amheuthun. Roedd yn wledd i'r llygad fel yr oedd Wendy - gyda help parod Eryl - wedi addurno'r byrddau ar ein cyfer, heb sôn am gael blasu ei choginio blasus ynghyd â llymaid o win gwyn neu goch. Bu Wendy yn olrhain hanes ei phrofiad yn ystod y gystadleuaeth fyrlymus - doedd dim amser rhydd i'w gael. Codi'n fore am 6.00 ac yna yn syth i'r farchnad i ddewis a phrynu nwyddau ffres. Yna trefnu rysetiau a hynny yng ngwres 50o mis Gorffennaf.

Bu'n gyfle gwych i wneud ffrindiau da a chyfle i drafod ac arbrofi rysetiau newydd. Wrth iddi siarad â ni roedd hi hefyd yn cadw llygad barcud ar ei stôf fechan. Cafodd pawb flasau'r Risotto , ynghyd â theisennau sbwng bendigedig. Bachwyd ar y cyfle i'w holi ymhellach ac i'r rhai sy'n mwynhau coginio bu'n barod iawn i rannu rysetiau o bob math. Bu'n noson hynod o ddifyr - yn wledd i'r llygaid, myglust ac, wrth gwrs, y blasu.

Diolchwyd iddi am noson hynod o ddiddorol gan Margaret a diolchwyd i Eryl am fod o gymorth mawr i Wendy gyda'r siopa ac wrth arllwyo'r byrddau. Enillwyd y raffl gan Bethanne.

Y cyfarfod nesaf fydd ymweliad â'r Dafnod, Y Fic, Llithfaen i ddathlu gŵyl ein Nawddsant. Bydd y bws yn cychwyn o Benisarwaun am 6.00 yr hwyr ac yn codi aelodau ar hyd Ffordd yr Orsaf ac yna'r Sgwâr. Edrychir ymlaen am noson ddifyr gan fod criw o Lithfaen yn dod yno i'n diddori.

Er gwybodaeth, bydd cyfarfod Ebrill wythnos yn hwyrach - sef ar 20 Ebrill - a bydd cyfarfod Mai yn cychwyn am 7.00 o'r gloch gyda'r Cyfarfod Blynnyddol a chwmni Mari Emlyn.



Blodau Lieneke

Blodau Priodas
Priodferch
Lleoliad • Byrddau

Cae Rhyddau Pontrug
Caernarfon LL55 2TN

Symudol 7510 511 631

Gwefan- <http://www.blomstervill.no>
E-bost- blomstervill@robin.no

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CLWB BRO BETHEL: Roedd nifer dda yn bresennol yng nghyfarfod mis yma, ac yn dilyn y croeso arferol cyfeiriwyd at ddwy o'r aelodau, sef Mair Jones, Cilan, a Nerys Owen, Wern Las, y ddwy wedi bod yn yr Ysbyty yn ddiweddar a dymunwyd iddynt wellhad buan.

Y gŵr gwadd oedd John Dilwyn Williams, Penygroes, a thestun ei sgwrs oedd 'Caernarfon - Ddoe a Heddiw'. Siaradodd yn ddifyr iawn, gyda chymorth nifer fawr o luniau, ar sut oedd y dref wedi newid dros gyfnod o flynyddoedd. Diddorol oedd sylwi ar yr holl adeiladau oedd wedi bod yn rhan mor bwysig o'r dref ar un cyfnod, ac yna y newidiadau sydd wedi ymddangos erbyn heddiw.

Roedd arbenigedd y siaradwr yn ei faes yn amlwg a'i neges oedd i bawb edrych at i fyny wrth grwydro'r hen strydoedd i werthfawrogi y trysorau pensaernïol sydd yn y dref yn hytrach nac edrych i lawr ar y palmant.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddo am sgwrs hynod o ddiddorol gan Ieuan Williams.

MERCHED Y WAWR: Croesawyd pawb ynghyd gan y Llywydd, Mair Read, gan ddatgan balchder o weld Llynwen Morris wedi gwella yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Llongyfarchwyd Eryl Roberts ar ddod yn Nain i Begw Elain, sef merch fach Rhodri.

Trafodwyd nifer fawr o faterion y Mudiad. Cefnogwyd y prosiect 'Coed Cadw' a phenderfynwyd cysylltu â'r Ysgol i ofyn a oes ganddynt le addas i blannu coeden. Derbyniwyd enwau gan rai oedd yn fodlon gwirfoddoli mewn cynllun ar y cyd gyda Mudiad Ysgolion Meithrin i

fynychu'r Cylch lleol i ddarllen stori i'r plant.

Gofynnir am arian Swper Gŵyl Ddewi (£15) i Glenys neu Gwyneth Jones erbyn diwedd y mis, ac hefyd rhwydwyd os nad ydych yn bwriadu dod, er hwyluso trefniadau. Bydd y bws yn cychwyn o'r Cysegr am 6.45 o'r gloch.

Frank Green, Pontrug, arlunydd wrth ei waith, oedd y siaradwr gwadd, a chafwyd sgwrs diddorol iawn ganddo yn olrhain hanes ei fagwraeth yn Lerpwl a sut y bu iddo ymddiddori yn y byd arlunio. Diddorol oedd deall iddo ddysgu'r iaith Eidaleg tra yn yr Eidal am flwyddyn - roedd eisoes wedi dysgu Cymraeg. Roedd wedi dod â chasgliad enfawr o ddyfr-luniau o wahanol ardaloedd oedd wedi cymeryd ei sylw, yn enwedig rhannau o Lerpwl cyn i'r adeiladau cael eu dymchwel, a chafwyd hanes a chefnidir nifer o'r lluniau eraill oedd yn y casgliad.

Diolchwyd iddo am noson ddifyr iawn gan Mair ac enillydd y raffl oedd Mary Evans.

C Y M D E I T H A S L E N Y D D O L:

Y Llywydd, Dr. J. Elwyn Hughes a groesawodd pawb i'r cyfarfod y mis diwethaf gan estyn croeso arbennig i'r siaradwraig wadd, sef Meinir Pierce Jones. Dau o gewri y byd llenyddiaeth oedd gwrthrych ei darlith, a chyflwynodd hanes Dewi Emrys, bardd, newyddiadurwr, a Gweinidog, a chafwyd hanesion difyr a dwys am ei fywyd. Roedd yn gymeriad lliwgar iawn yn ei amser, ac fe ddaeth i enwogrwydd wrth ennill Coron a Chadeiriau yr Eisteddfod Genedlaethol dros gyfnod o flynyddoedd. Bardd ac awdur storïau byrion oedd Dilys

Cadwaladr, a fu'n byw ar Ynys Enlli yn cadw fferm a hi hefyd oedd athrawes yn yr Ysgol yno. Dros gyfnod o amser bu i'r ddau ddod yn gyfeillion agos iawn, a thristwch o'r mwyaf oedd i Dewi Emrys farw flwyddyn cyn i Dilys Cadwaladr ennill y Goron yn Eisteddfod y Rhyl yn 1953, a hithau y ferch gyntaf i gyflawni'r gamp honno. Y Prifardd Selwyn Griffiths gynigodd y diolchiadau a braf oedd cael cymdeithasu dros banded ar y diwedd, wedi ei baratoi gan Gwyneth, Bet a Rita. Tro nesaf bydd Geraint Lloyd

Owen yn darlithio ar Llwyd o'r Bryn.

DYMUNA David ac Ann, efeilliaid 'Pen Parc' ddiolch i'w teulu, ffrindiau a'u cymdogion i gyd am y cardiau, anrhegion, a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu pen-blwydd arbennig ym mis Ionawr. Mwynhaodd pawb y parti a'r dathlu ym Mhlas Glynllifon.

DYMUNA Cemlyn a Gwenan ddiolch i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion dderbyniodd Elliwr Pys ar ei genedigaeth ym mis Rhagfyr.



Ysgol Sul Bethel yn dathlu'r Nadolig

CÔR DINAS BANGOR

Ar nos Sul Chwefror 28 cynhaliwyd cyngerdd/Cymanfa Ganu yn Eglwys Dewi Sant, Glanadda, Bangor i ddathlu Gŵyl Dewi. Cenwyd emynau pwrpasol gan y Côr a'r gynulleidfa a bu'r Côr yn canu eitemau unigol yn ogystal. Yr arweinydd oedd James Griffiths gyda Lowri Roberts Williams yn cyfeilio i'r Côr a Keith Lacey wrth yr organ. Fel llynedd, cafwyd cyngerdd llwyddiannus iawn.

Y mae'r Côr yn gwneud ymgyrch ricriwtio aelodau newydd o bob llais, yn enwedig i adran yr ail fas. Os

oes rhywun â diddordeb ymuno, gellir dod i unrhyw ymarfer ar nos Fercher yn Ysgol Y Faenol, Penrhosgarnedd rhwng 7-30 a 9-30 o'r gloch neu gysylltu â'r Arweinydd ar 1248 352966 neu unrhyw aelod o'r Côr.

Nid yw'r Côr yn cystadlu ond yn canolbwyntio ar gyngherddau, gan gynnwys teithio dramor. Ar draws y blynyddoedd maent wedi cynnal cyngherddau yn America, Canada, Awstria, Ffrainc, Malta, Ynys Cyprus a'r Almaen, yn ogystal â gwledydd Prydain, gan gynnwys Gogledd Iwerddon.

CEIR CYMRU BETHEL (01248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.

ARVONIA



- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvoniaco.uk • Gwefan: www.arvoniaco.uk

Teyrnged Mr. Hywel Idris Williams

Yn y rhifyn diwethaf o'r Eco, roeddem yn llongyfarch Eirlys Williams, 3 Pentre Helen, Deiniolen ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 90 oed. Yn y rhifyn hwn, cydymdeimlo â hi a'i theulu a wnawn. Fe gollodd ei hannwyl briod, Hywel, ddiwedd Ionawr, a hynny ar ôl 63 mlynedd o briodas hapus.

I mi, Hywel ac Eirlys oedd yr enwog Hywel a Blodwen, ac anodd yw meddwl am y naill heb y llall. Mae'n cyfeillgarwch yn mynd yn ôl chwe deg mlynedd i ddechrau pumdegau'r ganrif ddiwethaf. Alwais i 'rioed mohonynt yn Anti ac Yncl, na chwaith yn Mr a Mrs Williams. I mi, tad a mam Jen oeddynt. Ac fel ffrind i Jen y byddwn i yn mynd ar aelwyd 5 Hafod Olau'r pryd hynny. Aelwyd gynnes a chroesawgar, gyda Jen, Hefin, Arthur a Meirion yn llenwi'r gegin amser prydau bwyd. Yn y chwedegau y cyrhaeddodd Eyrn.

Gynted ag yr oeddwn i wedi gorffen pryd bwyd yn 12 Deiniol Road, i ffwrdd â mi ar hyd Green Teras a Glyn Teras ac i nôl Jen i chwarae. Ella y byddwn wedi cyrraedd cyn iddynt hwy orffen eu pryd, ac fe fyddai tad Jen yn dweud wrthyf a fynd i'r 'washws' i ddisgwyl. Yn yr enwog 'washws' roedd y rhyfeddod i mi. Roedd gan tad Jen beiriant gwau yno. Yr unig un arall oedd gan beiriant gwau, i mi wybod, oedd Mrs. Griffith, tŷ pen Deiniol Road.

Mi 'dwi'n dal i gofio bodio, gan ofalu peidio symud y botwm lliw porffor tywyll oedd ar y brwsh oedd yn cael ei lithro yn ôl a blaen i ffurfio'r rhesi yn y gwau. Ew, mi roeddwn i'n ei gweld yn braf ar Jen oedd gan dad mor ddawnus oedd yn gallu troi allan sannau, sgarffs a siwmperi hefo'r brwsh a'r botwm yma.

Gan i afiechyd y polio ei daro ac yntau'n ddyn ifanc iawn, 'doedd symud ddim yn hawdd

iddo. Gwisgai galipers a defnyddiai ddwy fagl i symud o gwmpas. 'Doedd o byth yn cwyno, ond pan ddigwyddai rhywbeth fyddai'n ei gynhyrfu, fe fyddai gan tad Jen ymadrodd sydd wedi aros hefo fi hyd heddiw. Er iddo ddysgu Cymraeg yn rhugl iawn, troi at ei famiaith ym Mhenbedw wnaï ar yr adegau hyn ac fe glywid 'Christmas is coming' ganddo, hyd yn oed ar ddechrau Ionawr. Fe wyddem ar yr adegau hyn ei bod yn well i ni gadw'n glir.

Yn y dyddiau pan y gellid cyfrif holl geir Deiniolen ar ddwy law, roedd gan tad Jen ei gar bach arbennig i hwyluso ei deithio o gwmpas. Un du, tri olwyn oedd y cyntaf a lifar yn ei lywio. Roedd canopi glaw du dros y coesau a lle yn yr ochr i ddal y baglau. Weithiau, nid y fo oedd yr unig un yn y car bach du. Byddai Meirion, pan oedd yn hogyn digon bychan, yn cael ei wthio dan y cwrldid ac yn cael mynd hefo'i dad am dro i lawr am Gaer Mynydd. Mi fydden ni, y rhai hŷn, wedi cerdded draw i hel llus a bwyta'r picnic oedd yn cael ei gario wrth ochr Meirion o dan y canopi du. Oedd, roedd gan tad Jen gar - ac i mi roedd hynny'n symbol o gyfoeth aruthrol. Peth rhyfedd yw meddwl a dychmyg plentyn.

Ac fel plentyn deg oed y rhedais i draw i Hafod Olau pan fu farw fy nhad - i ddweud wrth Jen. Ei mam yn teimlo i'r byw pan glywodd a'i thad, ie ar ddiwedd Ebrill, yn dweud yn dawel 'Christmas is coming'. Aeth Jen a minnau am dro y bore Sul hwnnw a dwi'n dal i gofio cymaint o gysur fuodd hi a'i theulu i mi.

A dyma ni, hanner can mlynedd yn ddiweddarach, yn dal yn ffrindiau clos a bellach yn byw yn Llanrug. Mae'n anodd iawn meddwl am yr aelwyd yn Neiniolen a'r gadair yn wag. Yn ei angladd cyflwynwyd teyrngedau tyner

iawn i Hywel gan Sioned, Dylan, Ffion a Gethin oedd yn amlwg iawn yn meddwl y byd ohono. Bydd y plant a phlantos y plant yn fodd i gynnal a chysuro Eirlys. Ond mi fydd ganddi hefyd lu o atgofion melys a chariadus dros gyfnod maith lle bu i Hywel a hithau rannu bywyd hir a hapus.

Diolch am y fraint o gael ei adnabod ac am iddo fod yn rhan mor bwysig o fy mhleintyndod. Mair x

Merched Cymru gan Siân Lewis

Cyfle i ddod i adnabod arwresau pwysicaf Cymru.




Marged - Arwres Eryri

Mae rhai pobl yn gallu canu'r delyn ac eraill yn gallu reslo. Mae rhai'n gallu pedoli ceffyl. Does fawr neb sy'n gallu gwneud y tri pheth! Ddwy ganrif yn ôl, roedd na ddynes yn byw yn Eryri oedd yn medru gwneud hyn i gyd yn ogystal â gwehyddu, adeiladu a rhwyfo cychod, cyfansoddi a chanu

caneuon, a rhedeg tŷ tafarn. Roedd hi mor anhygoel o dalentog, bu'n rhaid i'r awdur enwog, Thomas Pennant, deithio'n bell yn y gobaith o'i chyfarfod.

Roedd Marged ferch Ifan yn gawres gref na fyddai'n derbyn dim lol gan neb. Ond roedd ganddi le arbennig yn ei chalon i lanto, ei chi bach. Tybed pwy fyddai'n ddigon ffôl i wneud niwed i'w chi bach annwyl?



Dwynwen, Santes Cariadon Cymru

Un tro, roedd na dywysoges hardd oedd yn caru tywysog golygus. Ond doedd ei thad ddim yn fodlon iddi ei briodi. Roedd hi wedi torri'i chalon a doedd dim dewis ganddi ond gadael ei chartref a hwylio i ffwrdd mewn cwch i ba le bynnag y byddai'r gwynt yn ei chwythu. Dyma ddechrau stori Dwynwen, nawddsant cariadon Cymru. Treuliodd ei bywyd ar ynys fechan Llanddwyn, Ynys Môn, yn helpu pobl sâl a'r rhai oedd wedi torri'u calonau. Er iddi hi ei hun gael siom mewn cariad, dymuniad pennaf Santes Dwynwen oedd i gariadon fod yn hapus. Dyna pam y bydd llawer o Gymry'n anfon cardiau a negeseuon cariadus i'w gilydd ar 25 Ionawr, sef Diwrnod Santes Dwynwen.

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyndedig drwy Warant 3420271



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

PEUGEOT
BMW
SKODA
AUDI
SEAT
PORSCHÉ
VOLKSWAGEN
FIAT
ABS
AIR CON
VOLVO
MERCEDÉS
SAAB

•Cymhwyster•
BOSCH
i roi gwasanaeth i'ch car
heb effeithio ar
y warant*
Dewis arall dibynadwy
yn lle'r Prif Ddeliwr
* Gyda rhai amodau

Trwsio cerbydau a gwerthu partiau sbâr
Lle da y gellwch ei fforddio

Stâd Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

GWASANAETH
i'r Car

MEWNFORIO
YR ALMAEN
UNIONI OLWYNION
CAMBELTS
TRYDANOL
SWEDEN

PEUGEOT
BMW
SKODA
AUDI
SEAT
PORSCHÉ
VOLKSWAGEN
FIAT
ABS
AIR CON
VOLVO
MERCEDÉS
SAAB

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718

MEWNFORIO
YR ALMAEN
UNIONI OLWYNION
CAMBELTS
TRYDANOL
SWEDEN

YSGOL BRYNREFAIL

APÊL HAITI

Yn sgil newyddion am y ddacargryn erchyll yn Haiti fe aeth dau ddisgybl o'r chweched dosbarth, sef Greta Fflur Jams ac Enfys Elen Roberts ati i drefnu casglu arian tuag at Apêl Haiti.

Gyda chefnogaeth y Pennaeth fe fynychodd y ddwy gyfarfod yn y Bontnewydd gydag aelodau o Glwb Rotari Caernarfon i egluro eu syniadau. I gychwyn y gronfa derbyniwyd sic o £250 gan Gymdeithas Chweched Dosbarth yr ysgol a hefyd cafwyd cyfraniad o £250 o Gronfa'r ysgol.

Ar nos Fercher, 27 Ionawr, mewn noson rhieni blwyddyn 9 darparwyd lluniaeth ysgafn gan griw bychan o enethod y chweched dosbarth, gyda'r arian a gasglwyd yn mynd i'r gronfa.

Ac ar y dydd Gwener, 29 Ionawr, cafwyd diwrnod di-wisg ysgol gyda'r holl ddisgyblion a'r staff yn cefnogi. Coginiodd genethod y chweched dosbarth deisennau a bisgedi a'u gwerthu i'r disgyblion yn ystod egwyl y bore. Yn ogystal trefnwyd 'Tawelwch Noddedig' gan ddau ddisgybl o flwyddyn 8.

Casglwyd cyfanswm o £1,831.52 gan yr ysgol tuag yr Apêl. Felly bydd o leiaf tri 'shelter box' yn cael ei anfon yn enw Ysgol Brynrefail i drigolion Haiti.

BOCSYS ARGYFWNG ROTARI I HAITI

Clwb Rotari'n dweud 'Diolch' Ar ran y Llywydd Rotarian, D. Rhys Prytherch, a holl aelodau Clwb Rotari Caernarfon hoffwn ddiolch o galon i drigolion y Dref a'r Cyffiniau am eu hymateb i'r Apêl yma i brynu bocsys argyfwng yn Haiti. Diolchwn yn arbennig i Ysgol Brynrefail, Ysgol Dyffryn Nantlle ac Ysgol Syr Hugh Owen am eu cyfraniad tuag at yr apêl yma. Yr ydym wedi casglu £6000 ac mae hyn yn ddigon i brynu 12 bocs argyfwng sydd yn costio bron i £500 yr un. Mae'r deuddeg bocs wedi eu hanfon. Mae'r bocsys yma yn cynnwys pabell ddigon mawr i ddeg person fyw ynddi, ynghyd â deg sach cysgu, offer gwneud bwyd, offer puro dŵr i ddeg person am chwe mis; llyfrau ac yn y blaen i blant; offer garddio ac offer er mwyn gwella eu sefyllfa Mae Rotary Rhyngwladol o'r wlad yma wedi anfon 3200 o'r bocsys yma i Haiti yn barod ac mae pentrefi wedi ei codi wrth ddefnyddio'r pebyll yma. Unwaith eto, Diolch o galon am eich haelioni a'ch cydweithrediad ac am ymateb mor ardderchog i'r Apêl yma.

Yn gywir, ROTARIAN DAFYDD JONES



Gret Fflur Jams o Fethel ac Enfys Elen Roberts o Ceunant, yn cyflwyno sic o £1,831.52 i gynrychiolwyr Clwb Rotari Caernarfon, Mr Rhys Prytherch (Llywydd) ac Mr Dafydd Jones.



Pryd i Bawb

Arlwyo at bob achlysur yn unrhyw leoliad Bwffe blasus o safon



- Priodas •
- Cyfarfodydd busnes
- Bedydd/Parti/Te angladd
- Baged Picnic
- Bwyd yn unig neu gwasanaeth llawn

Cerid Mackinnon
Ffôn: 01286 673190
Symudol: 07774 925502

Noson Rieni yn Ysgol Brynrefail Cyflwyno Cwricwlwm Blwyddyn 10 (C.A.4)

Fe gynhaliwyd noson llwyddiannus i rieni yn Ysgol Brynrefail ar ddydd Mercher, 27ain Ionawr, 2010. Ar ran yr ysgol roedd yr Uwch Dîm Rheoli (Mr Eifion Jones, Mrs Eirwen Williams a Mr Dilwyn Roberts) yn bresennol ynghyd â'r athro gyrfaoedd, Mr Howyn Jones. Yn ymuno â nhw oedd Ms Katie Williams a Ms Sharon Williams, Gyrfa Cymru a Mr Elfed Morris, Coleg Menai.

Gyda thros gant yn bresennol fe gynigwyd gwybodaeth ynglŷn â'r cwricwlwm newydd a'r nifer fawr o gyrsiau fydd yn cael eu cynnig am y tro cyntaf.

Ym mis Mai 2009, fe gyflwynodd y Cynulliad Fesur Dysgu a Sgiliau Cymru, sy'n anelu at wella dewisiadau addysgol, yn rhai galwedigaethol ac academiaidd, i bobl ifainc yng Nghymru.

Mae hyn wedi golygu cynnydd yn y nifer a math o gymwysterau sy'n cael eu cynnig i ddisgyblion ar

ddiwedd blwyddyn 9. Mae Ysgol Brynrefail yn cydweithio gyda cholegau ac ysgolion lleol i geisio sicrhau dewis eang o bynciau. Mae'r mwyafrif yn cael eu cynnig ar safle'r Ysgol ond mae eraill yn cael eu cynnig ar y cyd ar safleoedd eraill.

Cafwyd adborth cefnogol gan y mwyafrif o rieni a'r mwyafrif helaeth wedi mwynhau'r sesiynau, yn enwedig y wybodaeth ynglŷn â'r sefyllfa bresennol ym myd gwaith a'r wybodaeth am gyrsiau galwedigaethol fydd yn agor drysau yn lleol mewn meysydd megis Peirianeg, Busnes a Manwerthu. Mae hyn yn adeiladu ar lwyddiant cyrsiau galwedigaethol a gyflwynir yn yr Ysgol mewn meysydd fel Gweithgaredd Awyr Agored ac Iechyd a Gofal.

Yn dilyn llwyddiant y noson y mae'r Ysgol yn ystyried noson gyffelyb i rieni blynnyddoedd 11,12,13.

Diwrnod y Llyfr yn Ysgol Brynrefail

Bydd Ysgol Brynrefail yn dathlu Diwrnod y Llyfr eleni ar y 4ydd Mawrth 2010 yn ôl ein harfer. Y mae athrawon yr Adran Gymraeg a'r Adran Saesneg yn prysuro i drefnu a chynnal cystadlaethau yn gysylltiedig gyda llyfrau ffuglen gosod y dosbarthiadau ac fe fydd lluniau ac erthyglau o'r cynnyrch yn rhifyn nesaf yr Eco.

Wyddoch chi be? Y mae gennym 135 o ddisgyblion ym mlwyddyn 7 eleni. A ninnau hanner ffordd trwy'r flwyddyn Ysgol yr ydym yn ymfalchïo eu bod wedi benthyc 1408 o lyfrau ffuglen o lyfrgell yr ysgol, hynny yw, ar gyfartaledd 10 llyfr y disgybl.

Y mae Adam Bragan 7N wedi benthyc 20 llyfr a'i hoff lyfr yw Goosebumps - 'The Revenge of the Living Dummy' R.L. Stine.

Y mae Catrin Jones 7N a Joel Sellers French 7O wedi benthyc 19 llyfr yr un a hoff lyfr Catrin yw 'Bwli a Bradwr', Brenda Wyn Jones. Hoff lyfr Joel yw BeastQuest - 'Kaymon the Gorgon Hound'.



GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLs • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK



Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLLEN

Crynodeb o gyfarfodydd Ionawr a Chwefror

Teyrnged. Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth y Cyn-Gynghorydd Jacob James, Deiniolen, trwy sôn am ei waith diflino am flynyddoedd lawer i'r Cyngor yma a Chyngor Bwrdeistref Arfon. Cafwyd munud o dawelwch o barch i'r cyn-gynghorydd. Dilynwyd hyn â gweddi gan y Cadeirydd. Ychwanegodd Phyllis Ellis at goffâd Mr Jacob James trwy gyfeirio at ei gefnogaeth i'r Iaith Gymraeg yn y Cyngor, ceisiai ei orau i gael gohebiaeth Gymraeg gan fudiadau a chynghorau eraill er y prinder cefnogaeth yr adeg honno.

Arwyddion 'dim sat nav'. Ateb Mr Dafydd Wyn Williams, Gwynedd, yn dweud eto 'ni allwn gynnig arwydd o'r fath os nad yw'n cydymffurfio â'n canllawiau' a 'hefyd rhaid cofio fod cyfrifoldeb ar y gyrwyr i ddefnyddio eu synnwyr cyffredin pan maent yn gyrru ar ffyrdd cefn gwlad'. Ychwanegodd Phyllis Ellis ei bod wedi cael addewid yng nghyfarfod Gwynedd a'r cynghorau cymuned y gellid gosod yr arwyddion yma yn rhywle. Dywedodd hefyd nad oes llawer o synnwyr cyffredin gan yrwyr loriau mawrion sy'n achosi'r broblem ar ffyrdd bychain.

Llifogydd Pen Llyn. Dywedodd Pat Jones ei bod wedi mynychu cyfarfod gyda Asiantaeth yr Amgylchedd, First Hydro, Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Pat Larsen a Mr Niel Roberts. 'Roedd Mr Roberts wedi paratoi yn dda trwy gyflwyno lluniau o'r ardal bum niwrnod cyn ac yn ystod gorlifant. Addawodd First Hydro edrych i mewn i'r dyddiadau a lefelau'r dŵr a gyflwynodd Mr Roberts. Gofynnwyd i First Hydro a fuasent yn ystyried gostwng y mesur y maent yn ei ollwng i Lyn Padarn pan fo llifogydd. Mae'r

Asiantaeth wedi addo torri'r gordyfiant a glanhau silt Afon Seiont o Bont Rhythallt at afon Caledffrwd.

Band llydan, Rhiwlas. Cyfeiriodd Elspeth Mitcheson at ateb Hywel Williams AS ac awgrymu anfon llythyr at y Dirprwy Weinidog Ieuan Wyn Jones AC i'w atgoffa bod Rhiwlas i fod yn 'Hot Spot' ar gyfer y gwasanaeth yma.

Comisiwn Elusennau. Cyflwynwyd eu llythyr yn dweud bod rhaid cael ymddiriedolwyr i gaeau chwarae Penisa'rwaun a Chlwt y Bont. Deallir bod yna un ymddiriedolwr i bob un o'r ddau safle. Addawodd y clerc wneud ymholiadau erbyn y cyfarfod nesaf a sicrhau bod Gwynedd yn parhau i ariannu'r ddau gae hyd yn oed os bydd y Cyngor Cymuned yn ymddiriedolwr.

Yr Urdd. Cyflwynwyd eu hadroddiad - Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Eryri yn 2012. Nid oes safle wedi ei dewis eto ond mae'r ymgyrch i godi arian yn cael ei sefydlu.

Cyngor Iechyd Cymuned. Cynigion ar gyfer diwygio Cynghorau Iechyd yng Nghymru. Diddymir y 5 CIC presennol yng Nghymru a sefydlu un Cyngor dros y Gogledd. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar y 15ed o Ionawr eleni.

Adolygu Trefniadau Etholiadol Cyngor Gwynedd. Mynychodd Phyllis Ellis gyfarfod Un Llais Cymru ar ran y Cyngor. Dyma oedd ei chyflwyniad i'r cyfarfod:

- Ni ddylid cadw'n haearnidd at y cymhareb cynghorwyr i etholwyr o 1 i 1750 ond rhoi ystyriaeth i leihau y nifer o etholwyr mewn ardaloedd gwasgaredig lle mae arwynebedd y ward yn gallu bod yn fawr.

- Ni ddylid rhannu unrhyw bentref rhwng wardiau ond ei gadw yn uned o fewn y ward.

Ni ddylid newid patrwm unrhyw ardal fwy nag unwaith

mewn cyfnod o 15/20 mlynedd.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd:

- Gorsaf Betrol Beran, Deiniolen - codi arwydd wedi ei oleuo. Gwnaed sylw ar y cais yma ynglŷn â chryfder y golau gan ei fod yng nghefn gwlad heb gystadleuaeth goleuadau ffordd na siopau.

Derbyniwyd pedwar cais arall.

Ceisiadau a ganiatwyd gan Wynedd:

- Fferm Pendinas, Llanddeiniolen - estyniad ochr.
- Berthen Gron, Clwt y Bont - addasu ac ehangu.
- Y Weirglodd Goch, Penisa'rwaun - estyniad.
- Tŷ Coch Bach, Penisa'rwaun - adeiladu modurdy.
- Llain o dir dros y ffordd i Awelon, Erw Buan, Bethel - cadw dwy sied.

Llwybrau

Dywedodd Gwilym Williams bod coed leilandii yn pwyso ar y ffens lechi ac yn ei niweidio ar y llwybr, rhif 30, o gae chwarae Clwt y Bont i fyny. Perygl o dorri'r ffens wrth i'r coed ysgwyd yn y gwynt.

Llwybr ger Dryll, Deiniolen. Danfonwyd cwyn i Wynedd bod ffos ar agor a phibellau yn rhydd ar y llwybr yma.

Chwefror.

Mainc Dinorwig.

Penderfynwyd ailosod y fainc yn y cylch canol yn yr Allt Ddu.

Addawodd Len Jones geisio cael Gwynedd i osod mainc dros y ffordd i'r ganolfan yn lle'r un a ddiflannodd.

Llwybr diogel i'r ysgol. Gofynnodd Pat Jones am gael atgoffa Gwynedd o'u haddewid am y llwybr o Frynrefail i gyfeiriad Cwm y Glo.

Cynllun Ardal Gwynedd. Cwblhawyd holiadur Gwynedd i bwysleisio yr hyn sydd ei angen yn yr ardal. Gellir cael copi o'r atebion oddi wrth y Clerc

Tywydd Garw. Gofynnodd Geraint Hughes am gael canllawiau tywydd garw'r Cyngor Sir ar gyfer ysgolion a'r ucheldir.

Cynllunio

Fron Hywel. Soniodd Mrs

Larsen ar y ffôn wrth y Clerc ei bod yn gwrthwynebu'r cais oherwydd bod y fynedfa yn rhy agos at dop yr allt ac yn beryglus - ni ddaeth y cais yma i'r Cyngor Cymuned.

Derbyniwyd chwe cais cynllunio yn ystod y Mis.

Bryn yr Adar, Gallt y Foel - estyniad a newidiadau

Cais a wrthodwyd gan Wynedd - newid Cartref Nyrsio, Penisa'rwaun i ddefnyddio'r cartref ar gyfer pobl dros 40 oed yn hytrach na henoed yn unig.

Ceisiadau a ganiatwyd gan Wynedd:

- Ropes and Ladders, Gilfach Ddu - ymestyn y cwrs rhaffau lefel uchel a chodi ffens ddiogelwch.

- Penrhos Villa, Bethel - newidiadau i'r fynedfa.

Dyddiad y cyfarfod nesaf - yr 2il o Fawrth



Hywel Williams

Aelod Seneddol
Etholaeth Caernarfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa yna ffoniwch 01286 672076 i wneud apwyntiad neu ysgrifennwch ato-

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell
Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
williamshw@parliament.uk

**Stôf Draddodiadol neu FODERN
i gynhesu eich tŷ**

CYSYLLTWCH Â



JOHN HUGHES a'i FAB
IARD LO Carmel Gwynedd
01286 882160



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

Cynhaliwyd cyfarfod Cyngor Cymuned Waunfawr yn Ganolfan Waunfawr am 7.15 ym 11 o Ionawr 2010.

Trafodwyd y broblem o loriau mawr yn trafaelio trwy'r pentref, nodwyd ein bod wedi dod â'r mater i sylw Cyngor Gwynedd.

Llochesau bws – nodwyd fod y gwaith plaster angen sylw i'r lloches bws ger yr hen bost. Angen cael prisiau ar gyfer gwneud y gwaith.

Y fynwent – Angen rhoi arwydd ar ddrws y cwt ei fod i gael ei gadw ar gau ar bob amser.

Llwybrau troed y pentref – doedd dim i'w adrodd. Nodwyd y bydd y Cyng C. James a'r Cyng T. Parry yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar y Pwyllgor Llwybrau Rhwydwaith Gymunedol Gwyrfa.

Gerddi Bach – Mae trafodaethau wedi bod yn mynd ymlaen yn yr ychydig fisoedd diwethaf ynglŷn â'r darn tir dan sylw. Bydd holiadur yn mynd allan i bob aelwyd yn y Gymuned yn y misoedd nesaf. Byddwn yn gwrandao ar eich sylwadau ond gan y Cyngor Cymuned fydd y gair terfynol.

Roedd 1 cais cynllunio diwygiedig i law. Gwrthodwyd y cais ar sail edrychiad oherwydd ei fod yn gwrthdaro â gweddill y stad.

Roedd 4 cais cynllunio arall wedi derbyn cymeradwyaeth gan Gyngor Gwynedd.

Materion eraill a godwyd yn ystod y cyfarfod:

- Derbyniwyd cwyn fod plant ifanc gyda beiciau modur yn defnyddio llwybr Glanrafon. Mae'r mater wedi cael ei anfon ymlaen at yr heddlu.

- Nodwyd fod anghysondeb yn amserlenni bysiau sy'n cael eu harddangos yng Nghaernarfon, Caeathro a Waunfawr. Rydym

wedi ysgrifennu at Bws Gwynedd.

- Mae angen trefnu cyfarfod cyhoeddus yn y pentref ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2012. Bydd yn cleru yn ysgrifennu at bob sefydliad yn y pentref yn gofyn am gynrychiolaeth yn y cyfarfod os gwelwch yn dda.

- Diolchwyd i Gyngor Gwynedd am eu gwaith arbennig o gadw'r priffyrdd yn agored yn ystod y tywydd garw yn ddiweddar.

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg o Ionawr 2010:

- Adroddwyd fod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus gyda'r cais i First Hydro gan dderbyn £16,500 tuag at wella Cae Chwarae Pwll Moelyn a chynhyrchu Pamffled ar lwybrau'r ardal.

- Penderfynwyd gofyn i'r Warden Cŵn fynychu'r cyfarfod nesaf oherwydd y problemau baw ci ar un o'r llwybrau sydd yn arwain i'r cae ac mewn amryw o leoedd yn Llanrug a Chwm-y-glo.

- Trafodwyd cwyn a gafwyd am y gwydrau ar y Cae Chwarae ger Nantyglyn. Penderfynwyd ymateb gan egluro fod y Cyngor yn ymwybodol o'r broblem ac yn ceisio, gyda chydweithrediad gan yr Heddlu, i wella'r broblem.

- Trafodwyd cais gan Lewod Llanrug i osod storfa yn y cae chwarae i gadw offer a gofynnwyd am fwy o wybodaeth.

- Adroddwyd fod cyflwr y llwybr sydd yn arwain o Cefn Rhos Ddu i'r lôn bost yn wael.

Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd edrych arno.

- Doedd dim gwrthwynebiad i'r Ceisiadau Cynllunio canlynol:

- Estyniad – Bro Dawel, Trevor Terrace, Ceunant

- Mynediad newydd – Tir ger Tai Bryn Gwyn, Llanrug

- Penderfynwyd rhoi grant o £650 i Gylch Meithrin Llanrug

- Penderfynwyd cadw'r praesept am 2010-11 yn £18,000.

- Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd a allent raeau at y fynwent pan fydd eira yn cael ei ragweld eto a llenwi'r bocsys melyn sydd yn y pentref.

- Trafodwyd y broblem o sbwriel sydd yn casglu o flaen y tai ger y llwybr sydd yn arwain o Ffordd yr Orsaf i gaeau cefn Ysgol Brynrefail. Penderfynwyd gofyn i'r ysgol a allant ei glirio.

- Adroddwyd fod y Cyngor wedi derbyn Grant o £2582.97 gan Fenter Trefi Taclus i dacluso Cwm y Glo.

Trefi Taclus yn rhoi hwb i harddu'r amgylchedd yng Nghwm y Glo

Bydd yr amgylchedd lleol yn ardal Cwm y Glo ar ei ennill diolch i hwb ariannol gan gynllun Trefi Taclus Cyngor Gwynedd. Mae'r Cyngor yn cynnig grantiau i grwpiau cymunedol a chymdeithasau i wella'r amgylchedd naturiol drwy gynnal gweithgareddau, ymgymryd â phrosiectau a phrynu offer.

Mae Cyngor Cymuned Llanrug wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais ar gyfer tacluso cae chwarae a phentref Cwm y Glo yn gyffredinol, drwy adeiladu meinciau a ffens newydd yn y cae chwarae a chllirio sbwriel o amgylch y pentref.

Daw'r grant Trefi Taclus yn sgil cronfa gwella'r amgylchedd Llywodraeth y Cynulliad, ac mae Cyngor Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth â Cadwch Cymru'n Daclus.

Nod y cynllun yw cefnogi mentrau amgylcheddol, megis ymgyrchoedd casglu sbwriel neu ladd chwyn, gwneud mannau cyhoeddus, megis tir agored, yn llefydd brafiach, plannu blodau, gwella mynediad a chreu gerddi natur. Bydd Swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd maes yn chwarae rôl hanfodol mewn hyrwyddo ansawdd yr amgylchedd lleol.

Am chwaneg o wybodaeth am gynllun Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, cysylltwch â trefitaclus@gwynedd.gov.uk

SMALA
www.smala.net

Cardiau Busnes, Poster, Taflenni, Gwefannau, llyfrynau, penllythyr, a mwy....



01286 660 364
07887 654 251

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: Eco'r Wyddfa

AGE
Concern

Os byddwch yn cysylltu a swyddfa Age Concern, byddwch yn ymwneud a chynhyrchion penodol o Age Concern Enterprises Limited (ACEnt). Mae ACEnt wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfrngiad yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gofrestrddig

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partion rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYNN CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718188

wefan: www.ydyncig.co.uk

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG
677362

neu symudol

07979
620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

GWASANAETH COFFA'R HOLOCAUST

Ar yr 27ain Ionawr 2010 fe ddathlwyd gwasanaeth Coffa'r Holocaust yn Neuadd Penrhyn, Bangor. Ymysg y gwahoddedigion yr oedd Cynghorydd Anne Lloyd Jones, Cadeirydd Cyngor Gwynedd, a'i Theilyngdod Maer Bangor, Cynghorydd Jean Forsyth. Cafwyd cyfraniadau gan Ysgol Syr Hugh Owen, Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol Dyffryn Nantlle.

Ein cynrychiolwr a'r ddarllenwraig oedd ein Prif Ddisgybl, Enfys Mai, a ddarllenodd y gerdd sy'n dilyn:

I ddechrau daethant am yr
Iddewon
ac ni chodais fy llais -
achos doeddwn i ddim yn Iddew.

Yna daethant am y comiwnyddion
ac ni chodais fy llais -
achos doeddwn i ddim yn
gomiwnydd.

Yna daethant am yr undebwyr
llafur
ac ni chodais fy llais -
gan nad oeddwn yn undebwr
llafur.

Yna daethant amdana i -
ond doedd neb ar ôl
i godi llais ar fy rhan i.

Addasiad Aled Lewis Evans o gerdd
Martin Niemoller
allan o Geiriau Gorfoledd a Galar
(gol) D. Geraint Lewis 2007



Enfys Mai Roberts

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG


Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!



Llywelyn Williams

Llwyddiant Llywelyn

Llongyfarchiadau calonnog i Llywelyn Williams, sy'n byw ym Mhontrug, ar gael ei ddewis i chwarae i dîm rygbi newydd Gogledd Cymru, sef RGC1404. Mewn gêm gyffrous ar gae chwarae Clwb Rygbi Bangor enillodd y tîm dan 17 RGC1404 y gêm yn erbyn tîm dan 17 Swydd Efrog o 13 pwynt i 7 pwynt. Y mae Llywelyn yn chwarae yn yr ail reng ac fe gafwyd clod mawr am ddycnwch y tîm newydd yn erbyn eu cymar o Loegr.

Y mae pawb yn Ysgol Brynrefail yn ymfalchïo yn llwyddiant Llywelyn ac yn cadw llygad barcud ar y garfan genedlaethol er, gobeithio, gweld ei enw yn o fuan.

SBOTOLAU AR Daniel Bell

Y mae Daniel Bell, disgybl ym Mrynrefail, yn bêl-droediwr o fri a bu gohebydd Brynrefail yn dal i fyny gyda'i newyddion diweddaraf.

Ym mhle rwyt ti'n chwarae pêl-droed ar hyn o bryd?

Rwy'n chwarae gydag academi Oldham Athletic a thîm Bethel dan 16 a hefyd tîm pêl-droed Cymru dan 17 mlwydd oed. Rwy'n chwaraewr canol cae.

Ar un adeg yr oedd et yn academi Manchester United. Sut fath o brofiad oedd hynny?

Mae safle Carrington (sef canolfan hyfforddi Manchester United) yn 'amazing'. 16 o gaeau pêl-droed a nifer ohonynt at bob tywydd. Dau ganolfan ymarfer dan do yn cynnwys caeau pêl-droed cyflawn, ystafelloedd newid, ystafelloedd meddygol, ystafelloedd ffysio, ffreutur a llawer iawn mwy. Tra bûm yno fe gefais gyfarfod Ryan Giggs ac Edwin van de Sar.

Beth yw canlyniad diweddaraf Oldham Athletic?

Oldham Athletic (dan 16) 2 Burnley (dan 16) 2, gem dda lle bûm yn chwarae yn fy safle gorau, sef canol y cae. Fi basiodd ar gyfer un o'r goliau.

Lle wyt ti'n gweld dy ddyfodol?

Yn Oldham am y ddwy flynedd nesaf ac anelu at chwarae i'r ail dîm a bod ar ymylon y tîm cyntaf.

Dy hoff dîm pêl droed yw?

Manchester United a fy arwr yw Paul Scholes, a minnau yn chwarae yn yr un safle a fo ond nid cystal - eto!!!!



Daniel Bell

DILWYN YN DAID!

Dymuna pob aelod o staff yn Ysgol Brynrefail estyn eu llongyfarchiadau calonnog i Mr Dilwyn Roberts ar enedigaeth ei wyres gyntaf, Begw. Dymuniadau gorau hefyd i Rhodri a Catrin.



Pencampwriaethau Traws Gwlad Arfon

Blwyddyn 7
Genethod

Cyntaf: Lois Regan; Ail: Sophie Richards; Meleri Law: 11; Katie Lloyd: 12; Alaw Prys: 13; Tesni Wood: 25; Hannah O (7E): 27; Kerry Meek: 40.

Bechgyn

Guto Pierce: 7; Cai Owen: 11; Dru Thomas: 15; Steffan Jones: 21; Jordan Eade: 19; Ifan Emlyn: 25; Rhys Parry: 29; Preter Monsoor: 33.

Blwyddyn 8 a 9
Genethod

Ail: Mari Gibbard; Kate Pritchard: 6; Molly Thomas: 9; Glesni Parry: 11; Mari Tachwedd: 13; Ela Owen: 24; Elliw Saynor: 26.

Bechgyn

Ail: James Bell; Rhys James: 6; Huw Owen: 8; Michael Horton: 9; Kurt Helfeld: 10; Iolo Hughes: 11; Alun Hgriffiths: 21; Dylan Thomas: 27.

Blwyddyn 10 ac 11
Genethod

Cyntaf: Megan Lloyd; Hannah Helfeld: 7; Gwenno Gibbard: 8; Llio Emyr: 9; Anna Jones: 13; Alin James: 14; Mared Morris: 27; Bernie Owen: 28.

Bechgyn

Ail: Jamie McDaid; Trydydd: Owain James; Daniel Bell: 5; Osian Kingston: 7; Cain Thomas: 16; Nathan Price: 37.

Blwyddyn 12 ac 13
Bechgyn

Trydydd: Ben Jones; Llion Jones: 6; Iwan Price: 7; Taliesyn Roberts: 9; Andrew Woodcock:

Bydd yr enwau mewn teip trwm yn cynrychioli Arfon ym Mhencampwriaeth Eryri ar ddydd Mercher, 3 Chwefror. Pob hwyl iddynt i gyd.

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn

Ffôn: (01286) 650218

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

MARWOLAETH. Ar Ragfyr 31ain bu farw Maldwyn Ll. Jones yn 63 oed. Roedd yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Jones, Peris View, ac yn frawd i Catherine Ll. Williams. Rai blynyddoedd yn ôl symudodd Maldwyn a'i ddiweddar wraig, Rita, a'u meibion i fyw i Bwllheli. Fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Denio ar Ionawr y 7fed. Cydymdeimlwn yn fawr â'r meibion o golli Tad a Thaid hoff ac a Catherine a'i theulu o golli Brawd ac Ewythr.

DIOLCH. Dymuna Catherine Ll. Williams a theulu'r diweddar Maldwyn Ll. Jones ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu galar, drwy arian, galwadau i'r tŷ, galwadau ffôn a chardiau. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH. Dymuna Idwal Bert Parry, Sycharth, Llanberis, ddiolch o waelod calon i holl Staff Ward Cybi (Uned Gofal Dwys), Yr Uned Gofal Arbennig a Ward Ogwen am eu gofal diflino a'u hymroddiad proffesiynol tuag ato tra yn eu gofal dros y tri mis diwethaf. Mae'r diolch hefyd yn fawr at aelodau'r teulu a'r holl ffrindiau - y cwbl ohonynt wedi bod yn gymorth mawr tuag at wellhad llwyr. Yn olaf, ond cyn bwysiced, diolch twymgalon i holl Staff Meddygfa Waunfawr gan gynnwys, wrth gwrs, y Nyrsys Cymunedol.

DIOLCH. Dymuna Anne a Bert Parry, Sycharth, Preswylfa, Llanberis, ddiolch yn fawr iawn i'w teulu a'u ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd wrth iddynt ddathlu pen-blwydd-priodas arbennig, sef dathliad eu Priodas Aur.

CYMDEITHAS UNDEBOL. Bu raid gohirio cyfarfod Y Gymdeithas ddechrau Ionawr oherwydd y tywydd garw ac fe'i

haildrefnwyd ar y 26ain o'r mis.

Roedd yn werth disgwyl am sgwrs ddiddorol Mr Ken Jones, Blaen-y-ddôl, Llanberis. Bu yn sôn am amrywiaeth o bynciau a 'chymeriadau dŵad' a fu yn ddylanwad ar ardal Llanberis. Llywyddwyd a rhoddwyd y diolchiadau gan Y Parchedig John Pritchard.

Cynhaliwyd 'Cwis' yng ngofal y Parchedig John Pritchard, ar y 9fed o Chwefror. Roedd yn noson hwyliog a braf, a chafwyd hwyl dda ar ateb y cwestiynau gan y ddau dim. Diolch am beidio eu gwneud yn rhy anodd! Rhoddwyd y diolchiadau gan Mr John H Hughes.

Ar y 9fed o Fawrth byddwn yn ymweld ag Eglwys hynafol Niwbwrch, Sir Fôn. Hefyd, cawn weld 'Llys Rhosyr', sef llys y Tywysogion ac, i ddilyn, cawn luniaeth ysgafn yn Neuadd Pritchard Jones, y pris fydd £5. Bydd y bws yn cychwyn o 'Limbo' am 3.30yp a chodi ar y ffordd fel arfer, bydd y cludiant am ddim i aelodau.

Os yr ydych am ddod, enwau i Dilys Mai Roberts, 01286 871758, erbyn y 3ydd o Fawrth er mwyn trefnu'r lluniaeth.

DIOLCH. Dymuna Derek Jones, 62 Maes Padarn, ddiolch yn fawr iawn i'w deulu a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion ariannol a dderbyniodd ar achlysur dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch un ac oll.

DIOLCH. Dymuna Audrey Evans, 2 Bryniau Gerddi, ddiolch o galon i'w theulu, perthnasau a ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ei phen-blwydd. Hefyd, diolch i Elwyn a Rhian a'r staff yn Padarn Lake am y wledd a'r gwasanaeth bendigedig ar noson ei phen-blwydd.

COR MEIBION DYFFRYN PERIS. Cymerodd y Côr ran

mewn cyngerdd yng Nghapel Y Drindod, Pwllheli, ar Nos Sul Chwefror y 14eg, i godi arian tuag at weithgareddau Cymorth Cristionogol yn Haiti.

Cafwyd noson arbennig yng nghwmni unawdwyr, deuawdau, telynorion, corau plant, corau hŷn a band pres. Codwyd dros £6,000 tuag at yr achos!

YSGOL DOLBADARN

Blwyddyn newydd dda i ddarlennwyr yr Eco gan staff a disgyblion Ysgol Dolbadarn. Mae hi wedi bod yn hanner tymor prysur acw! Dyma ychydig o'r hanes.

Llongyfarchiadau: Daeth newyddion da i'r ysgol ar gychwyn y flwyddyn newydd pan anwyd mab bach i un o'n hathrawon, Miss Lowri Jones. Rydym yn falch o glywed bod pawb yn iawn a bod Ioan Gruffydd yn hogyn da i'w fam a'i dad!

Techniquest: Daeth criw Techniquest at yr Adran Iau i gynnal gweithdy gwyddoniaeth. Cafodd pawb ddiwrnod da.

Hei hogia bach: Bu'r ysgol yn ddigon ffodus i gael gwyllo sioe 'Hei hogia bach' yn ddiweddar a oedd yn cyflwyno llyfrau a darllen mewn dull hwyliog.

Pêl-rwyd Urdd Gobaith Cymru: Bu rhai o aelodau'r Urdd yn cystadlu mewn twrnament pêl-rwyd yn ddiweddar a chafwyd diwrnod llwyddiannus iawn. Da iawn chi am chwarae'n dda a diolch i bawb am eu cymorth.

Cyw: Roedd yna gynnwrf ymysg plant y dosbarth derbyn a

blwyddyn 1 ar Chwefror 2il pan ddaeth criw 'Cyw' (S4C) i'r ysgol i ffilmio rhai o'r plant yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau. Mae pawb yn edrych ymlaen at gael gwyllo'r 'film-stars' ar y teledu rŵan!

Trychineb Haiti:

Penderfynodd plant blwyddyn 6 eu bod eisiau codi arian tuag at drigolion Haiti ac felly cafwyd diwrnod di-wisg ysgol ar Chwefror 4ydd. Casglwyd £205 tuag at yr achos pwysig hwn., diolch am eich cefnogaeth, blant.

I'r copa: Mae criw o ffrindiau heini o flwyddyn 5 hefyd wedi penderfynu casglu arian at Haiti drwy ddringo i gopa 14 o fynyddoedd Eryri yn ystod 2010. Maent eisoes wedi cychwyn ar y dringo. Tipyn o gamp, blant! Da iawn chi a phob lwc. Mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol os ydych am eu noddi.

Safle'r Wê: Mae Ysgol Dolbadarn ar y wê! Lansiwyd ein gwefan yn swyddogol ar Chwefror 8fed. Cewch glywed y newyddion diweddaraf a gweld beth sy'n digwydd yn ein hysgol o ddydd i ddydd. Cofiwch y cyfeiriad:

www.ysgoldolbadarn.org

Cwmni Cortyn: Cafodd blwyddyn 2 ddiwrnod o greu pypedau ar Chwefror 12fed. Bu pawb wrthi'n brysur trwy'r dydd yn cynllunio a gwneud eu pyped ac maent yn werth eu gweld. I gloi'r diwrnod bu'r plant yn perfformio sioe bypedau. Mae 'na actorion da acw! 'Diwrnod ffantastig yn llawn hwyl a sbri!' ddywedodd plant blwyddyn 2

106 Vanzant Court
Stouffville
Ontario
Canada
L4A 4Z2

Annwyl Gwyneth ac Eifion
Meddwl y buasech yn hoffi'r
llun yma i Eco'r Wyddfa.

Carnifal Llanberis 1948.

(O'r chwith i'r dde mae):
Elwyn Foulkes, Raymond
Edwards, Maureen Clarke,
Awen Parry, Sylvia Cookson,
Beti Wyn Williams, Mair Wyn
Roberts, Buddug Owen, Nancy
Owen, Jean Davies, Jommy
Jones, Gareth Hughes, ??, John
Emrys, Dilys Wyn Roberts a
Gareth Jackson.

Mi fyddaf yn derbyn yr Eco pob mis - Stella, fy chwaer yn gyfrifol am hynny. Mae'r papur yn cael ei ddarllen pob gair ac yn mynd i'r ferch hynaf - Angela - sydd wedi ailddysgu'r Gymraeg. Mae hithau wedyn yn ei basio i'r Dosbarth Cymraeg yn Capel Dewi Sant yma yn Toronto.

Felly, gwelwch fod yr Eco yn trafailio ac yn cael ei ddefnyddio mewn mwy nag un ffordd!

Daliwch ati at y gwaith da.

Cofion gorau,

NANCY

(gynt o Dolwyn, Llanberis)

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



DEINIOLLEN

CYMORTH CRISTNOGOL. Apêl Haiti. Cynhaliwyd dyddiau o roddion yn Neiniolen yn ystod mis Ionawr a chafwyd ymateb hael dros ben. Casglwyd £1,200 er budd y dioddefwyr. Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cefnogaeth.

CYMDEITHAS UNDEBOL. Cynhaliwyd y Gymdeithas nos Lun, 28 Ionawr yn Nhŷ Elidir. Oherwydd salwch Mr Richard Ll. Jones, bu'n rhaid aildrefnu'r cyfarfod.

Cawsom noson hwyliog a chartrefol wedi ei threfnu gan y Llywydd, Mr John Pritchard. Noson o Gwis a'r cwestiynau wedi cael eu tynnu allan gan Mrs M.C. Griffith.

Diolchwn i'r ddau am baratoi ar ein cyfer a dymunwn yn dda i Mr Richard Ll. Jones ac iddo wella yn llwyr.

DYMUNA Alun a Maureen, 32 Stryd Newydd, ddiolch i'w teulu a ffrindiau am y cyfarchion, y cardiau, y blodau a'r anrhegion ar achlysur dathlu eu Priodas Aur.

MERCHED Y WAWR. Cafwyd noson ddifys dros ben yn dathlu'r Nadolig yng Ngwesty'r Padarn Lake yn Llanberis, a chafwyd digon i'w fwyta. Gan fod aduniad Parti Eryri yno ar yr un noson cafwyd gwledd o ganu a phawb mewn hwyliau da.

Siom i bawb oedd bod y Bowlio Deg wedi gorfod cael ei ohirio oherwydd y tywydd garw ond deallir erbyn hyn ei fod i'w gynnal ar nos Wener, 19 Mawrth. Siawns na cheir gwell tywydd erbyn hynny.

Dechreuwyd cyfarfod Ionawr gyda cân y mudiad a chroesawyd pawb o'r aelodau oedd yn bresennol gan Brenda, y Llywydd. Cyfeiriodd at rai o'r aelodau oedd ddim wedi bod yn dda yn ddiweddar ac anfonwyd cofion arbennig at Liz, oedd wedi bod yn yr ysbyty.

Dymunwyd pen-blwydd hapus iawn i Eirlys oedd wedi dathlu ei naw deg mlwydd oed, ond er mawr syndod i bawb, yr wythnos ganlynol daeth y newyddion trist am farwolaeth ei phriod, Hywel, ac anfonir cydymdeimlad llwyrat yr aelodau ati hi a'r teulu yn eu profedigaeth.

Croesawodd Brenda y gŵr gwadd, sef Mr Ieuan Roberts, prifathro Ysgol Pendalar a chafwyd sgwrs ganddo yn cynnwys sleidiau o'r hen ysgol ynghanol tref Caernarfon a'r ysgol newydd sydd wedi ei chodi ar ffordd Bethel. Soniodd am y newidiadau mawr a'r adnoddau arbennig sydd i'w cael yno a'r manciision y mae'r plant yn ei gael yn yr ysgol newydd. Treuliwyd noson ddifys iawn yn

gwrando arno.

Llongyfarchiadau mawr i Janice ar ddod yn nain unwaith eto, ganwyd merch fach i'w merch yng Nghaerdydd. Hefyd yr un modd llongyfarchwyd Jackie ar ddod yn hen hen nain ddwy waith yn ymyl ei gilydd, gan i'w dwy wyres roi genedigaeth o fewn rhai wythnosau i'w gilydd.

Heb anghofio hefyd rhaid llongyfarch Brenda, y Llywydd, sydd wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLWN a theulu Mrs Laura Pritchard, gynt o Rhydfadog, a fu farw'n ddiweddar yn 94 mlwydd oed.

Hefyd cydymdeimlwn â theulu Mrs Marian Griffith, Bryn Awelon, a fu farw yn 66 oed.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd i deulu Mr Hywel Williams, 3 Pentre Helen, a fu farw yn ddiweddar yn 93 mlwydd oed.

GWELLHAD BUAN. Anfonwn ein cofion at bawb o'r pentref a fu'n wael neu yn dioddef yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Brenda Williams, Rhydfadog, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 70 yn ddiweddar.

CLWB YR URDD. Mae clwb wedi ei ailsefydlu yn ddiweddar yn yr ysgol, a dymunwn pob lwc i'r aelodau a fydd yn cymryd rhan yn canu ac adrodd yn yr eisteddfod eleni.


EISTEDDFOD YR URDD ERYRI 2012. Mae pwyllgor apêl wedi ei sefydlu ar gyfer codi arian tuag at yr eisteddfod a gynhelir mewn 2 flynedd. Mae disgwyl i'r pentref godi £5,000 tuag at y gronfa, croeso i unrhyw un ymuno â'r pwyllgor a byddwn yn ddiolchgar o dderbyn cefnogaeth y pentref tuag at gyrraedd y nod yma.

Fe gynhelir noson i lansio'r apêl, noson dydd Gŵyl Dewi, yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch gyda chawl a chân, ac fe gymerir rhan ar y noson gan blant y pentref.

DYMUNA Carol, Emyr ac Iwan ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad, ymweliadau a'r holl gardiau a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth o golli Ken Jones, 7 Green Terrace, yn ddiweddar.

Diolch yn fawr iawn i'r Parchedig John Pritchard am arwain yr angladd ac i Dylan Griffith am y trefniadau trylwyr.

Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Fcddygfa Llanberis.



Llun o furlun a wnaed gan blant dosbarth derbyn Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen. Bu'r plant yn gweithio hefo Eleri Jones, arlunydd o Benmachno. Mae Eleri yn arlunydd hunan-gyflogedig sydd yn gwneud prosiectau celf amrywiol mewn ysgolion. Daeth i Ysgol Gwaun Gynfi dros gyfnod o bythefnos i weithio gyda'r plant lleiaf yn creu murlun yn seiliedig ar lyfr 'Y Trên Mawr Glas'. Cafodd y prosiect ei ariannu gan grant Asiantaeth i Ysgolion Gwynedd.



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol
2 Stryd y Plas, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswiriant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun

Y SAMARIAID
(01248) 674985

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

CHWILOTA

Y LLOSGI YN LLANBERIS



O'r diwedd deuthum ar draws hanes y drasiedi a ddigwyddodd ym Mryn Gwyddfán, Llanberis, pan losgwyd geneth fach i farwolaeth. Yn dilyn sawl cais mewn rhifynnau cynharach o'r 'Eco' - a sawl ymateb, gallaf ddatgelu mai ym mis Ionawr 1947 y llosgwyd Ethnea Charmaine Fox, merch bum mlwydd oed Dr Edward Gerard Fox.

Yn dilyn y wybodaeth ddiweddaraf gan Margaret Roberts o Gaernarfon, chwiliais drwy gofrestrau'r etholwyr am y cyfnod yn union wedi'r rhyfel. Ar y pymthegfed o Hydref 1947 roedd Edward Fox a Tegidwen Fox wedi eu cofrestru ym Mryn Gwyddfán, Llanberis, ond roeddent wedi diflannu erbyn yr Hydref canlynol. Roedd hynny yn cyfyngu ar y chwilio i ryw ddwy flynedd, ac o astudio'r marwolaethau yn y cyfnod hwnnw, dod ar draws cofnodi Ethnea Fox ym Mangor yn chwarter cyntaf 1947. Ond pam Bangor? Fe ddylai marwolaethau Llanberis gael eu cofrestru yng Nghaernarfon. Ac ai Ethnea oedd yr eneth fach, a phawb wedi sôn am Charmaine? Roedd yr ateb yn syml: cludwyd y ferch fach i'r ysbyty ym Mangor ar ôl llosgi, ac yno y bu farw. Dyna pam y cofrestrwyd y farwolaeth ym Mangor. A'i henw cyntaf oedd Ethnea, dyna pam y methwyd â chael cofnod o farwolaeth merch o'r enw Charmaine Fox.

Digwyddodd y ddamwain ar nos Fawrth, 21ain o Ionawr 1947. Roedd y ddwy chwaer (ni enwir yr ail chwaer yn yr adroddiad, ond Sheila oedd ei henw) wedi eu hanfon i'r llofft oherwydd eu bod yn dioddef o annwyd. Roedd y

fam wedi cynnau tân yn y llofft, ond wedi ei warchod rhag y genethod. Am tua chwech yr hwyr aeth i weld a oedd y ddwy yn iawn. Roedd y ferch hynaf yn ei gwely, a'r ieuengaf yn sefyll wrth y ffenestr ond eisoes wedi newid i'w gwisg nos.

Yn fuan ar ôl dychwelyd i'r gegin, galwodd Mr John Evans, Meifod, ar y fam a dweud fod tân yn y llofft. Rhuthrodd y ddau i fyny'r grisiau a chanfod Charmaine yn fflamau i gyd. Cafodd ei lapio mewn blanced i fygu'r tân, ac fe'i cludwyd i'r ysbyty. Cyrhaeddodd yr ysbyty (sef yr hen C & A) am ddeng munud wedi saith, ond bu farw erbyn deg yr hwyr o effeithiau llosgiaid a sioc.

Yn y cwest, a gynhaliwyd ar y dydd Gwener, adroddodd Mr John Evans fel yr oedd yn cerdded heibio Bryn Gwyddfán am tua chwech o'r gloch yr hwyr a sylwi ar dân yn ffenestr y llofft. Roedd geneth fechan yn sefyll yn y ffenestr. Rhuthrodd i'r tŷ at Mrs Fox ac aeth y ddau i fyny'r grisiau. Symudwyd yr eneth hynaf allan o'r llofft a diffoddwyd y fflamau oedd yn llosgi'r ferch ieuengaf. Adroddodd fod gwarchodwr ar y tân, ac mai mud-losgi a wnâi, heb fflam o gwbl.

Canmolwyd Mr Evans am ei sylwgarwch a'i ddewrder gan y Crwner. *'Your presence of mind saved a worse disaster, and you did the right thing at the right time,'* meddai. Roedd yn ddirgelwch sut y cydiodd y tân yn nillad nos Charmaine, gan nad oedd yn bosibl i'r un o'r ddwy eneth symud y gwarchodwr - methodd Mr Evans a gŵr arall a ddaeth

yno'n ddiweddarach, a'i symud. Adroddodd Sheila hefyd nad oedd hi na'i chwaer byth yn ceisio ymyrryd â'r tân pan gai ei gynnu yn y llofft.

Yr hyn sy'n od ynglŷn â'r digwyddiad yw'r ffaith na chrybwyllir dim amdano yng ngholofn newyddion Llanberis. Does dim cydymdeimlad â'r teulu, a does dim sôn am gynhebrwng. Ble tybed y claddwyd yr eneth fach? Yn sicr, nid oes cofnod o'i chladdu ym mynwent y plwyf. Mae'n ymddangos nad oedd y meddyg a'i deulu yn cael eu cyfrif yn rhan o'r gymdeithas yn Llanberis. Oedd cymaint o wahaniaeth dosbarth bryd hynny rhwng meddyg a gweddill y trigolion. A oedd y ffaith nad Cymro oedd Dr Fox yn gwneud gwahaniaeth? Mae'n ymddangos oddi wrth ei henw - Tegidwen - mai Cymraes oedd ei wraig. Ac o ble tybed y cafwyd yr enw anghyffredin, Ethnea, ar yr eneth fach?

Tybed oes mwy o wybodaeth i ddod i'r fei eto ynglŷn â'r drychineb yn Llanberis?

100 lle i'w gweld cyn marw...

Mae cryn dipyn o lyfrau (a rhaglenni teledu) wedi eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf yn rhestru y can lle i'w gweld cyn marw neu'r can llyfr i'w darllen cyn marw ac yn y blaen. Dros y Nadolig cyhoeddwyd llyfr Cymraeg ar yr un thema; gwaith ar y cyd rhwng yr hanesydd John Davies a'r ffotograffydd Marian Delyth. Mae Llanberis yn cael sylw yn y gyfrol ddiweddaraf hon, ac yn ôl yr awduron, rhestru llefydd a effeithiwyd gan ddyn a wnaethpwyd; dyna pam y rhoddir sylw i'r chwarel lechi a'r amgueddfa.

Tybed a fyddai'n bosibl rhestru cant o lefydd neu safleoedd o fewn dalgylch 'Eco'r Wyddfa' y dylai pob un o'i thrigolion ymweld â hwy cyn marw...

Dyma gynnig arni felly, a chan (!) croeso i chwi anghytuno neu ychwanegu at y rhestr.

Safleoedd cysylltiedig â chwedloniaeth

1. Maen Du'r Arddu - cysgu noson yma yn eich gwneud yn fardd neu'n wallgo.
2. Carreg Arthur ar lethrau'r Cefn Du.
3. Cerrig Padell y Brain
4. Carreg Lefain - y ddau safle yn 'gartrefi' i'r Tylwyth Teg.

Olion Hanesyddol Cynnar

5. Dinas Dinorwig
6. Caer Carreg y Frân.
7. Llys Dinorwig.
8. Y Gastell Gron - ger Pant Ifan, plwyf Llanrug.

Cestyll



John Evans wrth ei waith yng Nglynrhonwy wedi'r rhyfel.

9. Castell Dolbadarn
10. Castell Bryn Bras - er mai plasdy ydyw mewn gwirionedd.

Eglwysi

11. Eglwys Sant Peris, Nant Peris.
12. Eglwys Sant Deiniol, Llanddeiniolen.
13. Eglwys Sant Mihangel, Llanrug.
14. Eglwys Garmon Sant, Betws Garmon.

Y pedair uchod yn eglwysi plwyf. Ond mae'n werth ymweld hefyd â

15. Eglwys Llandinorwig
16. Eglwys Sant Padarn, Llanberis.

Ffynhonnau

17. Ffynnon Cegin Arthur
18. Ffynnon Peris.
19. Ffynnon Garmon - ar lethrau Moel Smytho, ond yng nghanol coedwig.

Pontydd

20. Pont Pen Llyn.
21. Y Bont Fain ger Castell Dolbadarn.

22. Pont y Meibion, Nant Peris, er nad hon yw'r un wreiddiol.

23. Pont Charlie, Bethel.

24. Pont y Gromlech.

Rhaeadr

25. Y Ceunant Mawr, Llanberis.

Olion Diwydiannol

26. Amgueddfa Lechi Cymru.
27. Ysbyty Chwarel Dinorwig.
28. Barics Chwarel Dinorwig.
29. Barics Pen Gwaith, Bwlch y Groes.
30. Caban Mills, Dinorwig.
31. Gwaith Cerrig Haearn, Betws Garmon.
32. Gwaith Copr, Nant Peris.
33. Gwaith Copr, lethrau'r Wyddfa - unai Clogwyn Coch neu Lyn Llydaw.
34. Cerdded y Llwybr Main o Lanberis i Ddinorwig.
35. Melin Bedwargoed.
36. Melin Sam, Clwt y Bont - y gwaith cerrig ysgrifennu mwyaf yn yr ardal.
37. Unrhyw felin ar lan afon



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Saint – boed lechi sgwennu neu wân.

Plasdai a thai hynafol

38. Tŷ Du, Llanberis.
39. Glangwna, Caethro – er nad hwn yw'r plasdy gwreiddiol.
40. Plas Gwyn, Llanrug.
41. Llwyn y Brain, Llanrug.
42. Plastirion, Llanrug.
43. Plas Pantafon, Llanrug.
44. Prysgol, ger Caethro.
45. Glasgoed, Llanddeiniolen.
46. Plas Glanrafon, Waunfawr.
47. Garreg Fawr, Waunfawr (ond rhaid teithio i Sain Ffagan!).
48. Plas y Nant, Betws Garmon (eto, nid hwn yw'r gwreiddiol)
49. Plas y Coed, Betws Garmon (Tan y Garreg yn wreiddiol).
50. Hafod y Rhug.

Rheilffyrdd

Rhaid cael y profiad o deithio ar y tair:

51. Rheilffordd Llyn Padarn.
52. Rheilffordd yr Ucheldir.
53. Rheilffordd yr Wyddfa.
.....ac wrth deithio ar yr Wyddfa, rhaid ymweld â
54. Hafod Eryri a'r copa.
Copaon eraill i'w cyrraedd
55. Elidir fawr.
56. Carnedd y Filiast a Mynydd Perfedd – gyda'i gilydd.
57. Y Garn
58. Gluder fawr.
59. Moel Eilio. (a'i chrib yn cynnwys y Foel Gron a'r Foel Goch)
60. Moel Cynghorion.
61. Cefn Du.
62... a phe bai ond unwaith yn unig, y Grib Goch.
63. Moel Rhiwen
64. Moelyci.

Llynnoedd

65. Cerddwch o amgylch Llyn Padarn.
66. Cerddwch drwy'r chwarel i edrych ar Lyn Peris.
67. Oedwch i gael cip ar Lyn Bogelyn yng Nghwm y Glo.
68. Ewch â phicnic i ymweld â Llyn Dwythwch.

69. Dewiswch ddiwrnod braf ar gyfer Llyn Du'r Arddu.
70... a Llyn Ffynnon y gwas
71. Mae'r olygfa o Lyn Marchlyn yn werth ei gweld, ond
72. mae angen diwrnod clir i ymweld â Llyn y Cŵn
73... felly hefyd Llyn Cwm Ffynnon.
74. Ac rwy'n fodlon dadlau fod Glaslyn
75. a Llydaw o fewn y fro hefyd.
76. Ac er mai mawnog wedi ei boddi yw Llyn Bryn Bras, mae'n ddigon deniadol.
77... ac rwy'n siŵr y byddai trigolion Caethro yn dadlau o blaid y llyn yng Nglangwna.

Eraill

78. Plac gyferbyn â'r Fricsan i gofio damwain y Powdwr Oel.
79. Marcio'r groes ar lôn Clegir – eto i gofio'r ddamwain.
80. Craig yr Undeb
81. Marconi.
82. Yr Olygfan yn Ninorwig i syllu ar Frenhines yr Wyddfa.
83. Taith i'r gwaith trydan yng nghrombil Elidir.
84. Y ddwy garreg – y naill ar dop, a'r llall ar waelod gallt Chwarel Glyn – yn dynodi meddiant y ffordd.
85. Cerrig terfyn hen blwyfi Llanberis a Llanrug ger Ynys Wen, a Llanddeiniolen a Llanrug ar Bont Penllyn
86. Carreg filltir ger eglwys Betws Garmon.
87. Carreg canons ger Gorsaf Rheilffordd yr Wyddfa.
88. Carreg Canons ar ochr y ffordd yn Clegir (neu unrhyw rai eraill y gwyddoch amdanynt).
89. Y cerrig ar dir fferm Plastirion yn dynodi gwahanol frwydrau yn Rhyfel y Crimea.
90-99. O leiaf un capel ym mhob pentref sy'n anfon newyddion i'r 'Eco'.
100... a diweddych eich taith gydag ymweliad â Nunlle, ger Bwlch y Groes.
Ac fe wn fod holl gartrefi enwogion y fro heb eu rhestru

'chwaith.

Dyna ddigon i gnoi cil arnynt dros y mis nesaf a llefydd i chwi gynllunio i ymweld â hwy pan ddaw'r gwanwyn. Ond cofiwch, mae nifer go dda ohonynt ar dir preifat, felly gwnewch yn siŵr fod caniatâd gennych i ymweld.

Cwmni Drama Sardis

Llawer o ddiolch i Ann Lloyd, Deiniolen, am anfon gwybodaeth am rai o gwmnïau drama yr ardal. Mae'n dyfynnu o rai o ddyddiaduron ei thaid, y diweddar Robert Jones, Tŷ Capel Sardis. Yn anffodus, meddai, does dim sôn yn y dyddiaduron beth oedd cyfraniad ei thaid i'r cwmni drama.

Yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Ebrill 1925 roedd y cwmni yn perfformio bedair gwaith: yng Nghwm y Glo, Llanberis, Llanrug a Dinorwig. Yna, ddiwedd y mis, perfformiwyd y ddrama 'Arthur Wyn' yn Rhiwlas; 'perfformiad da' yn ôl Robert Jones.

Ym mis Chwefror 1926 cafwyd y cwmni yn perfformio ym Meddgelert, a 'chael hwyl dda iawn'. Dilynwyd hyn ym mis Mawrth gan berfformiad ym Methel ac yn Neiniolen. Mae'n ymddangos mai 'Arthur Wyn' oedd y ddrama hon hefyd.

Ym meddiant Ann Lloyd mae dyddiaduron ei thad hefyd, sef Robert Lloyd Jones, ac yn y rheini ceir amryw gyfeiriadau at Gwmni Drama Libanus, Clwt y Bont. Maent yn cofnodi'r blynyddoedd o 1940 hyd ddiwedd y degawd, gan gychwyn yn Rhosgadfan ym mis Ionawr 1940 a Chlwt y Bont yn Chwefror yr un flwyddyn. Ni cheir enw'r ddrama yn anffodus.

Ar ddechrau 1941 am ddwy noson, cafwyd perfformiadau yng nghapel Libanus, 'a'r capel yn llawn'.

Ym mis Rhagfyr 1944 roedd y cwmni yn perfformio yn Nhrefor, a cheir adroddiad yn *Yr Herald Cymraeg* yn disgrifio 'Gwledd; dyna a gafwyd yn y neuadd nos Wener gyda pherfformiad o'r ddrama "Joan Danvers" gan gwmni enwog Clwt y Bont. Barn y gynulleidfa yn gyffredinol yw mai dyma'r perfformiad gorau a lwyfanwyd yn Nhrefor erioed. Yr oedd yr oll o'r actorion yn wych, a'r cynhyrchydd, y Parch Clifford Davies, wedi bod yn hynod ofalus a doeth ei ddewisiad o'r cymeriadau. Gallwn gymeradwyo'r cwmni hwn i unrhyw dref neu bentref nad ydynt eisoes wedi eu clywed.'

Mewn copi o bapur y Bedyddwyr, *Seren Fore*, ceir adroddiad am berfformiad arall, y tro hwn o'r ddrama 'Chwalu'r



Nyth' gan John Ellis Williams, Ffestiniog. Nid oes sicrwydd o'r flwyddyn. Yr actorion oedd Robert Lloyd Jones, Annie Lloyd Jones, Edna Llywelyn Jones, W. Orwig Jones, Lizzie Mary Jones, W. Thomas Jones a Betty Clifford Davies. Y cynhyrchydd unwaith yn rhagor oedd y Parch Clifford Davies. Bu'r cwmni yn perfformio yn Llanllyfni. Mae gweddill yr adroddiad yn sôn am ethol swyddogion i'r eglwys ac am aelodau yn y lluoedd arfog.

Wedi'r rhyfel, parhaodd y cwmni i berfformio. Yn 1947 cawn hwy yn Llanberis gyda'r ddrama 'Awel Gref', ac yna yn Llanrug. Nodir hefyd fod drama wedi ei pherfformio ganddynt ym mis Rhagfyr 1948. Pryd tybed y daeth y cwmni hwn i ben? Ac a oes rhai o'r aelodau yn parhau?

Llawer o ddiolch i Ann Lloyd am rannu'r wybodaeth â ni.

Teulu Jeri

Chlywais i erioed mo'r dywediad hwn hyd y mis diwethaf. A phwy meddech chi yw neu oedd Teulu Jeri? Wel llysenw'r ardaloedd cyfagos am bobl Llanrug ydyw, yn union fel y gelwir pobl y Waunfawr yn Beganifs. Ond pam Teulu Jeri? Gobeithio y cawn wybod erbyn y rhifyn nesaf!

Tân yng ngorsaf Marconi

Dyna ddigwyddodd ym mis Awst 1921, a galwyd ar ddiffoddwyr tân o Gaernarfon i ddelio â'r drychineb. Ond yn ffodus, llwyddwyd i ddiffodd y fflamau cyn iddynt gyrraedd, ac amcangyfrifid i'ad oedd y golled o ganlyniad i'r tân yn ddim mwy na deupunt.

Cofeb Ysgoldy

Diolch i Mrs Helen Owen, Penisarwaen, am ymateb i'r cais ynglŷn â'r gofeb yn hen gapel Ysgoldy. Ar ôl holi nifer o bobl, credir nad oedd cofeb yn y capel. Hyd yma, ni chafwyd sicrwydd, felly, mae croeso i gyn-aelodau gysylltu er mwyn cael gwybod yr ateb cywir!

A dyna ddigon am y mis hwn. Cofiwch anfon unrhyw ymateb neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (01286 673515).

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pŵn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org

01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban Cyf

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

YSGOL GYMUNED

Croeso. Braf o beth ydy cael croesawu Mrs Angharad Williams i ddosbarth Peris. Bydd yn gweithio gyda ni bob prynhawn ac mae'r plant wedi gwirioni yn ei chwmni yn barod!

Digwyddiadau Diddorol. Mae'r ysgol wedi bod yn fwrwlm o ymarferion ar gyfer Eisteddfodau'r Urdd. Rydym yn dymuno yn dda i bawb ac yn edrych ymlaen i'ch gweld yn perfformio ar y llwyfan yn fuan. Diolch yn fawr iawn i Miss E. Jones sydd wedi bod yn brysur yn hyfforddi a chadw trefn ar bawb!

Diolch yn fawr i bawb am gyfrannu tuag at ein casgliad ar gyfer cronfa trychineb Haiti. Roedd pawb yn edrych yn dda yn eu gwisgoedd ffansi, dillad nos neu ddillad eu hunain. Daeth bron i £100 i mewn - diolch yn

fawr.

Cofiwch am y cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi mae Cyfeillion a Rhieni yr ysgol yn drefnu yng Nghapel Tabernacl y pentref ar Fawrth y cyntaf. Bydd croeso i bawb wrando ar blant yr ysgol, Cass Meurig a 'Pigyn Clus', Nial a Danny Cain cyn dod draw i'r ysgol am luniaeth ysgafn.

Mynediad Medi 2010. Cofiwch bod angen cofrestru eich plentyn os yw'n 3 oed cyn Medi 1af 2010 ac eisiau lle rhan amser, neu os yw'ch plentyn yn 4 oed cyn Medi 1af 2010 ac eisiau lle llawn amser yn yr ysgol. Cysylltwch gyda'r Swyddog Mynediad, Swyddfa Addysg, Cyngor Gwynedd am ffurflen gais, os gwelwch yn dda.

Llongyfarchiadau i Ffion Haf, 22 Dôl Afon, ar ei llwyddiant yn yr arholiad Gradd 3 gyda'r Cornet. Pob dymuniad da iddi yn y dyfodol.

HEN LUNIAU CWM



Mrs Megan Olwen Jones ar y dde yn y rhes flaen.



COFIWCH GEFNODI EIN HYSBYSEBWYR



COLEG MEIRION - DWYFOR

Wyt ti'n meddwl am gwrs yng Nglynllifon?

Angen Llety Yn Ystod Y Tymor

MAE HOSTEL GLANRAFON YNG NGLYNLLIFON WEDI EI HADNEWYDDU!

- Cyfleusterau ensuite newydd
- Cegin hunanddarpar newydd
- Lolfa deledu
- Cysylltiad rhyngwyd yn y lloffttydd
- Cysylltiad teledu yn y lloffttydd
- Brecwast a phryd nos yn ystod yr wythnos
- Ystafell dau wely £75/£80 yr wythnos
- Grantiau ar gael!

Cyrsiau ar gael- Amaeth • Rheolaeth Anifeiliaid • Peirianeg
Coedwigaeth a Rheolaeth Cefn Gwlad • Astudiaethau Ceffylau

Am ragor o fanylion cysylltwch â ni

Glynllifon (01286) 830261

www.meirion-dwyfor.ac.uk

coleg@meirion-dwyfor.ac.uk

Dillad yn y wardrob nad sy'n ffitio?

Whilber yn segur yn nghornel yr ardd?

Beic sy'n rhy fach i'ch plentyn?

Cryno ddisgiau yn hel llwch yn yr atig?



Beth am eu **Cyfnewid** am rywbeth r'ych chi eisiau heb wario ceiniog?



Mae Rhodri Williams a Mari Lovgreen yn eich gwahodd i gymryd rhan mewn rhaglen newydd ar **S4C** sy'n rhoi siawns i chi gyfnewid pethau nad ydych eu heisiau bellach am bethau yr hoffech eu cael.

Cewch ddod â hyd at bump eitem.



Dewch â'ch dwylo'n llawn i

*Ysgol Gynradd Llanrug,
Llanrug,*

Dydd Sul 14eg o Fawrth, 2010

am 13.30 yp

Am ragor o wybodaeth ewch i Wefan Cyfnewid ar www.S4C.co.uk/cyfnewid neu cysylltwch â Thîm Cyfnewid ar 029 20590117

Boomerang+ Y Ganolfan Cyfryngau, Croes Cwrlwys, Caerdydd, CF5 6XJ



Boomerang

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Diolch i bawb am gefnogi noson hynod lwyddiannus yn yr Antur sef y NOSON GYRI. Daeth tua 50 i'r wledd! Cofiwch am ein noson nesaf, sef BWFFE GWYL DDEWI yn Bryn Eirian/Snowdonia Park Hotel ar Nos Sadwrn, Mawrth 6ed am 7 o'r gloch. Croeso i bawb.

Y CLWB 300. Enillwyr y Clwb am fis Ionawr oedd: £30: Mrs D.W. Jones, Dwyfor; £20: Mr F. Buckley, 4 Croes y Waun; £10: Mrs L.J. Williams, Plas Bodhyfryd.

CYDYMDEIMLWM yn ddwys â Mr Gareth Williams, yr ysgol, yn ei brofedigaeth o golli ei dad yn ddiweddar.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yng nghyfarfod mis Chwefror croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, bump o aelodau newydd i'r Sefydliad. Gan bod Sefydliad Beddgelert wedi cau roeddynt wedi penderfynu ymuno â ni yma. Pleser mawr i'r Llywydd oedd eu derbyn.

Y siaradwr gwadd oedd Mr M. Shaw o Frynsiencyn yn siarad a fangos sleidiau ar y gwenyn mêl. Mae'n amlwg ei fod wedi eu hastudio yn fanwl iawn ac yn rhoi trosodd eu hanes yn ddifyr tros ben. Mae ef ei hun yn cynhyrchu'r mêl ac yn ei werthu. Diolchodd Pat iddo am ei sgwrs. Hilda roddodd y raffl a Mair yn ei hennill.

Prynhawn Iau, 18 Chwefror, aeth yr aelodau i Westy'r Afr yng Nglandwyfach i fwynhau eu cinio Nadolig, oedd wedi ei ohirio o fis Ionawr oherwydd yr eira. Cafwyd, fel arfer, bryd ardderchog a phawb wedi eu plesio yn fawr.

Y mis nesaf, John Gwynedd fydd ein gŵr gwadd, yn siarad am ei daith i'r Himalayas. Croeso cynnes i aelodau newydd. Rydym yn cyfarfod ar bnawn dydd Iau, yr ail yn y mis, am 1.30 o'r gloch.

PLYGU'R ECO. DIOLCH. Am ddeg o'r gloch fore Iau, 28 Ionawr, cyrhaeddodd tudalennau rhifyn Chwefror o'r Eco i festri Eglwys y Waun. Bu'r tîm o 'blygwyr ffyddlon' y pentref wrth y gwaith o'i blygu am ddwy awr a hanner. Diolch i Wasg Dwyfor am ei gludo inni, i aelodau y tîm am roi eu hamser a'u hegni i wneud y gwaith plygu, ac i swyddogion Eglwys y Waun am ganiatau inni gael gwneud y gwaith yn y festri. Diolch i bawb eto eleni.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Nicky a John ar enedigaeth merch, Rosie, chwaer fach i Bryn, Dewi ac Iwan, ac wyres fach i Bridget Ryan, Dôl Erddi.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Siani Morgan, Bodlondeb, ar gyrraedd ei deunaw oed. Dymunwn bob hapusrwydd iddi i'r dyfodol.

GWELLHAD BUAN. Anfonwn ein cofion cynhesaf a'n dymuniadau am wellhad i Mr Raymond Edwards, Melin y Wig, sydd wedi bod yn teithio yn ddyddiol i'r ysbyty i gael triniaeth.

Dymunwn wellhad buan hefyd i Mrs Gwendoline Rowlands, Bryn Golau, wedi iddi ddisgyn ac anafu ei phen-glin.

ADREF O'R YSBYTY. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am wellhad buan at Sharon Lewis, Stad Tref Eilian, a Lois Jones, Tan-y-coed, Stad Bod Hyfryd, wedi iddynt dderbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty.

Hefyd, gorfu i Mrs Betty Hughes, Collfryn, dreulio cyfnod yn yr ysbyty oherwydd gwaeledd.

Anfonwn ein cofion hefyd at Meira, gan obeithio ei bod yn gwella.

CYDYMDEIMLO. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs

Margaret Jones, Glasfryn, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer a oedd yn byw yn Y Bontnewydd yn ddiweddar.

EISTEDDFOD YR URDD. Bu aelodau cangen yr Urdd yn brysur yn dysgu ac yn ymarfer ar gyfer cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail ar ddydd Sadwrn, 27 Chwefror. Da iawn chi a diolch i'r rhai roddodd eu hamser i'ch hyfforddi. Os y bu rhai ohonoch yn llwyddiannus, dymunwn yn

dda ichi yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor ar ddydd Sadwrn, 6 Mawrth.

CYFARFOD CYHOEDDUS. Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus i drafod gweithgareddau i godi arian tuag at Apêl Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012 yn y Ganolfan nos Lun, 22 Mawrth, am 7.00 o'r gloch. Bydd cynrychiolwyr o Bwyllgor Cyllid Eisteddfod 2012 yno i'n harwain. Taer erfynnir am bresenoldeb da. Diolch yn fawr iawn.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)



LLONGYFARCHIADAU i Lois Bee, am ennill medal aur mewn twrnament Judo yn Llandudno yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys gyda Marian Hughes, Tŷ Mawr, ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith yn Llundain.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am fis Chwefror oedd: £40: (107) Keith Jones, Bodawel; £25: (102) Llio Jones, Glanrafon; £15: (001) Dafydd Iwan, Carrog; £5: (75) May Jones, Crud yr Awel.

Y CAPEL. Cynhelir yr oedfaon canlynol yn ystod y misoedd nesaf:

Mawrth
7: 11.00: Ysgol Sul
2.00: Y Gweinidog, Parch Marcus Wyn Robinson
14: 11.00: Ysgol Sul
21: 11.00: Ysgol Sul
2.00: Parch Emlyn Richards
28: 11.00: Ysgol Sul
4 Ebrill, Sul y Pasg: 2.00

Parch Iorwerth Jones Owen.
CLWB Y MERCHED. Er gwaethaf y tywydd, daeth nifer dda o aelodau i'r Clwb ddiwedd Ionawr. Cafwyd noson lwyddiannus o hwyl a digrifwch yng nghwmni y Parchedig W. R. Williams, Y Felinheli. Gwibiodd yr amser heibio wrth inni wrando ar ei frith atgofion melys o'i gyfnod cynnar yn Aberystwyth a hanes ei waith fel Gweinidog, gan adrodd straeon amrywiol am gymeriadau lliwgar ac unigryw yr ardal. Diolchodd y Llywydd yn gynnes iawn iddo am noson hynod o ddiddorol.

Yn ystod y noson cydymdeimlwyd â Marian Huws yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer-yng-nghyfraith.

Rhodddwyd y raffl gan Mair ac fe'i henillwyd gan Dilys. (Bwriedir cynnwys yr arian am y raffl yng nghasgliad ariannol y pentref tuag at Drychineb Haiti). Gwesteion y te oedd Tina a Mair.

CYMDEITHAS CAE CHWARAE. Er mwyn paratoi ar gyfer cyllido gwelliannau angenrheidiol i Bafiliwn y cae chwarae, mae'r Pwyllgor yn awyddus i godi arian. Maent wedi cael caniatâd gan gwmni archfarchnad Morrisons i godi arian trwy gynnig pacio bagiau nwyddau y siopwyr ar 27 Mawrth 2010 a gofyn am rodd i'r achos.

Bydd aelodau'r Pwyllgor yn gofyn am eich cefnogaeth yn ystod yr wythnosau nesaf, gan gynnig amser dewisedig i drigolion y fro helpu gyda'r gwaith.

YSGOL BONTNEWYDD. Cafwyd arolygiad llwyddiannus gan dîm o Arolygwyr Estyn yn ystod mis Rhagfyr. Dywedodd Mrs Janet Wyn George, Pennaeth yr ysgol, 'Mae canfyddiadau'r arolygiad yn destun balchder i bawb sy'n ymwneud â'r ysgol ac yn adlewyrchiad o ymroddiad, gwaith caled a phroffesiynoldeb staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni. Mae cyflawni'r graddau gorau posibl ym mhob un o'r saith cwestiwn allweddol yn brawf o waith tîm effeithiol.'

Llongyfarchiadau i bawb - plant, cynorthwywyr dosbarth, athrawon, llywodraethwyr a rheini - sef cymuned yr ysgol.

GWELLA YN YR YSBYTY. Mae Alwen Roberts yn gwella yn Ysbyty Eryri. Gobeithiwn ei gweld hi adra cyn bo hir.

HELFA WYAU PASG. Rhagrybuddir plant y fro a'u rhieni y bydd Helfa Wyau Pasg, sy'n cael ei drefnu gan Gymdeithas Cae Chwarae Caeathro, yn digwydd am 11.15 o'r gloch fore Sul y Pasg, y 4ydd o Ebrill.

GOLGEIDWAD O FRI. Llongyfarchiadau i Aled 'Lodj' Jones am dynnu atgofion melys am y gemau pêl-droed Nadolig a'r Pasg erstalwm rhwng y Beganifs a hogia Caeathro, gan Dylan Iorwerth ar raglen 'Cofio' John Hardy yn ddiweddar.

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

**Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ**

Ffôn: **(01286) 650834**

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor **7.30 - 6.30**

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

MARWOLAETH. Yn ystod wythnos olaf Ionawr daeth y newydd trist i'r ardal am farwolaeth hynod o sydyn Gracie Alwena Williams, Glanrafon, Llanddona a fu farw yn Ysbyty Gwynedd yn 84 mlwydd oed.

Un o blant yr ardal oedd Mrs Williams, wedi ei geni a'i magu yn Cae'r Foel. Bu'n aelod ffyddlon o Eglwys St Mair ac yr oedd yn hynod weithgar yno. Colled fawr i'r Eglwys oedd pan fu iddi briodi Mr Elwyn Williams a symud i fyw i Landdona. Bu'n athrawes yn Ysgol Bethel am flynyddoedd lle roedd yn hynod o boblogaidd a'r plant yn hoff iawn ohoni. Byddai, ar y Sul, yn mynd allan i bregethu fel pregethwr cynorthwyol a byddai Elwyn, y gŵr, yn mynd hefo hi bob amser.

Bu'r gwasanaeth angladdol yn Salem, Caernarfon, dan arweiniad y Parchedig Ronald Williams, lle y daeth tua cant a hanner ynghyd i dalu y deyrnged olaf iddi. Rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym mynwent Llansadwrn.

Yr ydym fel ardal yn anfon ein cydymdeimlad llwyr i Elwyn, ei phriod, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

PEN-BLWYDD HAPUS. Llongyfarchiadau mawr i Mrs Alice Thomas, Plas Pengwaith, Llanberis (1 Bro Elidir, gynt) ar ddathlu ei phen-blwydd yn 91 yn ystod y mis. Da iawn chi, Mrs Thomas, gobeithio y cewch chi iechyd i fwynhau'r flwyddyn.

AMSERLEN Y BYSIAU. O'r diwedd yr ydym wedi cael amserlen wrth ochr y Gysgodfan yn Nhy'n y Fawnog. Diolch yn fawr i'r Cyngor am roi un yna i ni a gobeithio y caiff lonydd, ac nid ei fandaleiddio fel y llall. Gobeithio yn arw y bydd y personau sydd wedi bod yn cwyno am nad oedd un yno yn edrych arni yn awr ac yn gwneud defnydd o'r bysiau.

WYNEB NEWYDD AR Y FFORDD. O'r diwedd yr ydym wedi cael wyneb newydd ar y ffordd o'r Ganolfan i Blue Peris. Yr oedd hwn yn waith anodd oedd wir angen ei wneud. Does gen i ddim cof o weld y ffordd yma yn cael ei wynebu cystal â hyn o'r blaen. Mae llawer o waith cau tyllau wedi bod arni a hwnnw yn dod odi yno ar ôl rhyw wythnos. Diolch na ddigwyddodd damwain hefo'r fath dyllau. Ond diolch i Gyngor Gwynedd am roi wyneb newydd arni, gan obeithio ei fod wedi bod yn werth disgwyl amdano.

Mrs Gracie Alwena Williams (Eilira)

Glanrafon, Llanddona (gynt o Cae'r Foel, Dinorwig) gan y Parchedig R.E. Hughes, Nefyn. Cafodd Alwena ei geni a'i magu yn ardal Dinorwig yn y flwyddyn 1925. Hi oedd unig blentyn y diweddar Mr R. a Mrs M. Hughes. Bu farw ei thad pan oedd Alwena yn naw oed.

Cafodd fagwraeth dda a gofalus yn nhraddodiad gorau'r ardal a'r cylch, ardal y chwarel. Roedd ganddi feddwl mawr o'r cylch a'r gymdeithas y cafodd ei gwreiddio ynddi. Magwyd hi'n Eglwyswraig, yn Eglwys Dinorwig. Roedd dylanwad y cyfnod hwnnw wedi ei blethu i'w chymeriad, a chadernid y Wyddfa a'i chriw wedi ei wau i'w phersonoliaeth ddymunol ac agos atoch.

Wedi cyfnod yn Ysgol Dinorwig, cafodd fynediad i Ysgol Brynrefail, lle bu'n llwyddiannus iawn ac uchel ei pharch gan ei hathrawon a'i chyd-ddisgyblion. Llwyddodd yn ei arholiadau, a chafodd ei derbyn i Goleg St Mary's Bangor, oherwydd ei chefnidir Eglwysig yn ôl traddodiad y cyfnod. Aeth drwy ei chwrs Coleg yn llwyddiannus, i'w pharatoi i fod yn athrawes plant yn yr ysgol elfennol. Penodwyd hi'n

athrawes y plant lleiaf yn Ysgol Gynradd Bethel, Arfon ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd; ac yno y bu weddill ei chyfnod fel athrawes, dros ddeugain mlynedd. Bu'n athrawes ddylanwadol, ac yn gariadus ei gofal am bob plentyn. Roedd gan bob plentyn feddwl y byd ohoni, a pharch mawr tuag ati. Byddai'n ymfalchïo yn eu llwyddiant ac yn hynod falch o ddilyn eu hanes.

Yn y flwyddyn 1964, cyfarfu ag Elwyn Williams, o Landdona, a phriodi. Dau berson o'r un anian a'r un diddordebau. Yn aelodau o Orsedd y Beirdd, ac yn gefnogol i bopeth dyrchafol tu mewn a thu allan i'r Eglwys. Byddent gyda'i gilydd ym mhob man. Mwynhad mawr iddynt oedd ymweld yn fisol â'r Arwerthiant 'Antiques' yn y Gaerwen. Diddorai'n fawr mewn hen lestri, addurniadau a gemau. Roedd yno gydag Elwyn ddiwrnod cyn cael ei tharo'n wael. Bu ei marwolaeth yn gryn fraw i laweroedd, daeth yr alwad yn annisgwyl iawn heb rybudd na chystudd chwaith.

Wedi mynd i fyw i Glanrafon, Llanddona, parhaodd yn athrawes yn Ysgol Bethel. 'Mrs Williams' oedd hi yn Sir Fôn, ond 'Miss Hughes' yn Ysgol Bethel a'r ardal. Wedi cyfnod fel athrawes y plant ieuengaf, penodwyd hi'n Ddirprwy Brifathrawes; a bu'n ddoeth a chadarn yn ei hymwneud â'i gwaith. Roedd yn uchel ei pharch gan ei chyd athrawon.

Yn y flwyddyn 1966, cafodd brofiad creulon iawn. Ar ei ffordd adref o Landudno, cafodd ddamwain fawr gyda'r car. Bu farw ei mam yn y ddamwain, a loes a braw iddi oedd hyn; ac arhosodd y profiad gyda hi i'r diwedd.

Wedi setlo yn Sir Fôn, dechreuodd bregethu gyda'r gwahanol enwadau ac roedd ei gwasanaeth yn dderbyniol iawn. Byddai cryn alw am ei gwasanaeth ymhell ac agos, er mai Eglwyswraig oedd hi yn y gwraidd. Ac er ymuno â'r Ymneilltuwyr ar ôl ei phriodas,

ni chefnodd ar y cefndir Eglwysig. Bu'n aelod ffyddlon a defnyddiol mewn gwahanol gapeli, gan setlo yn Salem (A) Caernarfon y blynyddoedd olaf hyn. Byddai wrth ei bodd yn cael gwahoddiad i chwarae'r organ. Roedd yn gerddorol, ac wedi dringo'n uchel drwy arholiadau ym myd cerddoriaeth, a dysgodd chware'r delyn ar ôl ymddeol. Cafodd Elwyn a hithau fwynhad mawr yng nghwmni ei gilydd. Cymdeithasu, ymweld â chyfeillion ac â gwahanol fannau o ddiddordeb iddynt yng Nghymru. Bydd ei lle yn wag ym mywyd ei theulu a'i chyfeillion a'i chyn ddisgyblion. Yn ddiweddar, ni fu ei hiechyd yn dda. Cafodd gryn lesgeidd, ond daliodd ymlaen i frwydro a dal yn gryf yn y ffydd; a'i chred â'i cynhaliodd i'r diwedd.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn ag Elwyn yn ei hiraeth a'i unigrwydd a'i golled enbyd. Ei brofiad ydi:

'Mae heno gwyno am gâr,

Unig aelwyd a galar.'

Bu ei hangladd ddydd Gwener, 5ed Chwefror, yng Nghapel Salem, Caernarfon, lle daeth tyrfa luosog i werthfawrogi ei bywyd gan arweiniad ei gweinidog Y Parchedig J. Ronald Williams. Aethpwyd â'i gweddillion i orffwys ym Mynwent Eglwys Llansadwrn, Ynys Môn.

'Ei huchel barch ni chwâl bedd, Na gro unig ei rhinwedd.'



**ORIEL
CWM
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

**Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277**



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser - Aneuryn Jones a'r staff



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC WINDOWS**

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



**(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)**





Ar Ben Arall y Lein

Dyma ni ar drothwy'r hir disgwylidig ddydd, sef 3 Mawrth, a dechrau tymor arall. Be ddaw ein ffordd yn ystod y flwyddyn, tybed? Mae un peth yn sicr, roedd 2009 yn gyfnod pryd y bu'n rhaid i'r Gymdeithas wynebu'r her fwyaf, o bosib, yn ei hanes. Her, os na fyddai'n bosib ei goresgyn, a allai fygwth bodolaeth y Clwb i reoli dyfroedd y Seiont a Llyn Padarn.

Mor ddifrifol yw'r sefyllfa mae hyd yn oed Asiantaeth yr Amgylchedd, a oedd yn llusgo ei tracd ac yn gwadu fod unrhyw beth o le, wedi newid eu cân ac, ar ddechrau Rhagfyr, fe welwyd rhwydi yn cael eu gosod yn Afon y Bala i ddal torgochiaid pan ar fwrw grawn. Rwyf ar ddeall fod oddeutu 10,000 o wyau wedi eu casglu a'u trosglwyddo i ddeorfa'r Asiantaeth yn Nolgellau. Bydd y torgochiaid bach wedyn yn cael ei rhoi allan yn un o lynnoedd Eryri, a hyn i warchod y straen unigryw o Dorgoch Padarn.

Mae'r weithred yma, wrth gwrs, yn cadarnhau fod holl ddyfodol y torgoch yn Padarn dan fygythiad enfawr, a hyn i gyd oherwydd esgeulustod mawr ar ran y sefydliadau sydd i fod i warchod yn erbyn trychinebau o'r fath.

Ble mae hyn i gyd yn gadael y Gymdeithas, medda chi - wel yn ystod y misoedd diwethaf mae cryn brysurdeb wedi bod gan ein cynrychiolwyr, sef cyfreithwyr 'Fish Legal'. Un cam mawr ganddynt oedd trefnu archwiliad annibynnol gan gwmni o arbenigwyr amgylcheddol o Aberdeen, ac mae'r adroddiad yn feirniadol dros ben. Ond mae wedi gwneud un peth, sef dod â'r rhai sydd â chyfrifoldeb dros lendid dyfroedd Padarn at ei gilydd ac i weithredu, o'r diwedd, gyda meddyliau positif tuag at oresgyn y broblem.

Un cam enfawr yw fod cwmni Dŵr Cymru wedi newid eu cân yn hollol ac o'r diwedd yn codi ei gêm ac mae gwelliannau mawr wedi eu gwneud i'w dull o reoli sustem carthffos Llanberis. Yn ystod ein cyfarfod ar ddiwedd Hydref 09 roedd y cwmni yn gadarn nad oedd â wnelo problemau'r llyn ddim o gwbl â'u dull nhw o weithredu. Yn ystod ein cyfarfod diweddaraf ar ddiwedd Ionawr eleni cawsom adroddiad manwl o'r gwaith sydd wedi ei



Hel grawn torgoch



gario allan ac sydd eto i'w wneud. Bydd hyn, gobeithio, yn lleihau yn sylweddol yr arllwyso cyson o ffosffadau i'r dyfroedd.

Ond, wrth gwrs, nid dyma ddiwedd y daith! Erbyn Ebrill bydd canlyniadau samplau craidd o waelod y llyn i law, a fydd yn rhoi goleuni ar beth yw lefelau y ffosffadau wedi bod dros y blynyddoedd. Bydd hyn, yn ogystal a gwaith casglu data arall sy'n mynd ymlaen, yn galluogi'r arbenigwyr i benderfynu maint llwyth y ffosffadau a ddylid eu caniatu i'r llyn. Yn ôl cyflwr y dyfroedd am bedwar mis yng nghanol 2009 mi fuaswn i, fel llygywr, yn mentro dweud heb flewyn ar fy nhafod na ddylid caniatu dim llwyth o gwbl. Ond, i fod yn deg, efallai mai dyma fydd yn cael ei adrodd. Yn anffodus, yn y byd sydd ohoni heddiw, mae'n rhaid dilyn y camau hirfaith yma rhag, ar ddiwedd y dydd, i Ddŵr Cymru gymryd achos llys a dweud fod y camau priodol heb eu dilyn i ddod i'r canlyniad. Ydi'r byd 'ma wedi mynd o'i gof, ta be?

Mater i'w gysidro - os bydd argymhelliad Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn adrodd na fydd yn bosib arllwys dim rhagor o ffosffadau i Llyn Padarn, a fydd raid pibellu y cwbl o garthffos Llanberis i waith Caernarfon neu Treborth - wel dyna stori arall.

Heblaw am broblemau Padarn mae llawer iawn o waith ardderchog wedi mynd ymlaen dros fisoedd y gaeaf, drwy greu camfâu ac adeiladu stepiau newydd, a hyn i gyd i greu mynediad mwy hwylus i'n dyfroedd. Mae cryn dipyn o'r gwaith yma wedi cael eu wneud yng nghyffiniau Pont Rug, ond un problem fawr sy'n ein wynebu yw, fel mae ein aelodau yn creu mynediad gwell mae pawb dan yr argraff ei bod yn iawn iddynt gerdded ein tiroedd. Dydi hyn ddim yn ddrwg o beth ar adegau, ond mae rhai yn mynnu mynd a'u cŵn gyda hwy, gan feddwl mai tŷ bach i'w anifeiliaid yw'n llwybrau pysgota.

Mae'r broblem yma ar ei gwaethaf ym Mhont Rug a hefyd Pontllyfni. Ar y Llyfni mae'r clwb mewn perchenogaeth tir sy'n ymestyn o'r ffordd fawr hyd at y traeth ac mae'r lle yn warthus gyda baw. Mae Cyngor Cymuned Clynnog Fawr, yn ôl pob golwg, am geisio gwneud ein llwybr yn y fan hyn yn llwybr cyhoeddus, ac felly mwy o gŵn - os ydi hyn yn bosib! Os bydd ei hymdrechion yn llwyddiannus, beth fydd cyfrifoldeb y cyngor am lanhau'r lle, tybed?

Mis nesaf dwi'n addo dim ond trafod pysgota, os na fydd rhywbeth arall wedi codi ei ben, yndê!

HUW PRICE HUGHES

parhad o'r dudalen gefn

ras fil o filltiroedd ar draws Alaska ganol gaeaf!

Bydd y tymor rasio mynydd yn parhau gyda Ras Moel Wnion o Rachub, Bethesda am un o'r gloch bnawn Sadwrn 13eg o Fawrth. Mae hwn yn gwrs newydd eleni, a'r sôn yw y bydd y ddringfa o Raeadr Aber yn ôl i gopa Moel Wnion yn digalonni llawer.

Yna, ddechrau fis Ebrill bydd cyfres nos Fawrth yn cychwyn, unwaith eto'n cael ei noddi gan siop Great Arete, Bangor. Bydd y ras gyntaf yn cychwyn o'r Fron i gopa Moel Tryfan. Y llynedd roedd ymhell dros ddau gant o redwyr wedi cymryd rhan yn y gyfres, sy'n dangos fod poblogrwydd rhedeg mynydd ar gynnydd. Cofiwch hefyd fod rasys plant yn gysylltiedig â phob un o'r rasys nos Fawrth. Mae croeso i bawb gystadlu: does dim rhaid bod yn aelod o unrhyw glwb rhedeg.

Fis Mawrth hefyd bydd yn bosibl cofrestru ar gyfer Ras yr Wyddfa - y cyntaf i'r felin piau hi, ac y mae mwy o alw nac erioed am hawl i gystadlu yn y ras boblogaidd hon.

Dilys

Trin Gwallt Teithiol

Trin gwallt merched,
dynion a phlant
yn eich cartref



Symudol:

07919 897898

Ffôn:

(01286) 871869

Gwasanaethau Garddio Gorwel

01286 650761
07773 020424

Plannu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG

CHWARAEON

LLANBÊR 1 – SOWTH 2

Wedi bron i hanner can mlynedd o ddisgwyl mae'r Locos wedi achub cam y Darans. Heb amheuaeth, tîm Llanberis yn y chwe degau oedd un o garfanau cryfaf y gogledd. Cipiwyd pob tlws lleol a rhanbarthol, a buasai cipio yr hen Gwpan Amatur Cymru wedi coronni cyfnod aur i'r clwb ond yn anffodus, collwyd draw yng Nghaerleon. Daeth dyrchafiad cynghreiriol wedi hynny dan arweiniad Iwan Lloyd Williams. Tawel fu hi yn ystod y tymhorau diwethaf, gyda diweddu'r ail dim a'r cysylltiad hanesyddol â'r Caernarfon and Denbigh.

Ond yn rhyfeddol mae'r Locos yn ôl ar y trac. Dau rifyn yn ôl roeddwn yn cyfeirio at sefyllfa druenus y tîm yn y gynghrair, a phosiblwydd gwirioneddol o ddisgyn. Ond, y fath drawsnewidiad i Euron Davies a'i garfan gymharol ieuanc. Y sbardun yw'r rhediad rhyfeddol yn olynydd yr hen Gwpan Amatur, sef Tlws Cymdeithas Bêl-droed Cymru. Heb os, y rhediad cwpanaidd sydd wedi tanio'r gwellhad yn y gynghrair.

Bydd sôn am dymhorau rwy'n siŵr am y fuddugoliaeth draw yn Nhon Pentre draw yn y Rhondda. Cefais dymor yn chwarae i Dreorci yn y South Wales Amateur League, a gwn mor daer yw bois y Rhondda dros y bêl-droed. Caeau trwm a thaclwyr caled – ond croeso di-ail oddi ar y cae.

Rwy'n siŵr fod pobol y cwm wedi rhyfeddu pan welsant y nifer o gefnogwyr a deithiodd i'r de a chreu awyrgylch dda. Fel yr hen ddyddiau rwy'n siŵr pan lifai'r criw i lawr i'r Oval, a thorfeydd yn eu cannoedd ar gyfer y gwahanol ffeinals. Mae yna rywbeth am Lanbêr a chwpanau, ond does!

Tu hwnt i'r bêl-droed tybed a fu rhai o'r oedolion yn cymharu y ddwy ardal – brenhinoedd y diwydiannau llechi a glo yn eu dydd. Tebyg yw'r bobl gynhenid yn y ddwy ardal – Cymry i'r carn.

A'r gêm ei hun? Wel, enwau David Jones a Mark Hughes (enw da) a gofir fel y sgorwyr ond roedd pob un yn arwr. Ennill gyda steil sy'n rhoi mwy o frynhad.

Ymlaen felly i Ffordd Farrar a thorf dda, gobcithio, ar gyfer y semi yn erbyn Glan Conwy ar Fawrth 13.

Mae tipyn wedi ei wneud o'r ffaith bod y Glan wedi curo Llanberis ddwy waith eleni yn

barod. Ni fydd yn gêm hawdd, ond teimlaf bod cyfle da iawn gan yr hogia. Fel mae'r sylwebyddion yn dweud 'Mae'r momentwm ganddynt'. Mae llwyddiant yn magu llwyddiant. Rwy'n siŵr y bydd criw o 'drip Caerleon' yno gan obeithio gweld yr olyniaeth yn llwyddo. Ymlaen â'r freuddwyd.

*Codwch stêm am y semi – chwi 'Locos',
cewch lwc dda eleni;
Rhodri 'hell' nawr o'n hardal ni,
o guro byddwch gewri.*

ADREFNU NEU DDIM?

Dyma'r cwestiwn llosg ym myd pêl-droed lleol ar hyn o bryd. Y C. and D. dan fygythiad, ail adran i Gynghrair Gwynedd, ac yn awr ail adran i'r Alliance. Oes rhyw gynllun dieflig ar waith. Pwy sydd yn tanio'r bwlcdi? Yr F.A. neu'r cynghreiriaid barus. A fydd newid yn 'change' er gwell.

Un abwyd i hyrwyddo'r newid yw'r gallu neu anallu i dderbyn grantiau ar gyfer datblygu meysydd a chyfleusterau. Yr uchaf eich statws yn y gynghrair mae'n ymddangos yn hawsach denu nawdd. Daeth newyddion yn ddiweddar am glybiau lleol i Wynedd/Môn a dderbyniodd nawdd hael. Y cwestiwn yw pa mor isel y dylid mynd yn y drefn byramydaidd i hybu gwreiddiau'r gêm. Y cwestiwn oesol yw faint o hybu'r gêm yn wirioneddol y mae'r glybiau yn ei wneud, ynteu rhoi cyfle yn unig i chwaraewyr gael gêm. Ceir cwyn arall fod pobol yr ardal yn codi pres i gynnal eu tîm sy'n llawn o fechgyn tu allan i'r ardal.

Rwyf yn gredwr cryf yn y dull a welir ar gyfandir Ewrop yn aml. Un clwb mewn pentref/ardal a phob agwedd o'r gêm, o'r dan 7 i'r tim hŷn, dan reolaeth un gyfundrefn/pwyllgor.

O edrych ar y gwahanol gynghreiriaid mae rhyw 60 o dimau ar y lefel dan y Cymru Alliance yn chwarae'n rheolaidd yng Ngwynedd/Môn. Mae hwn yn nifer delfrydol i ffurfio Cynghrair Ranbarthol gyda phedair adran. Dyma ffordd o roddi ffordd realistig i glybiau'r ardal ffendio eu gwir lefel, a rhoddi pwmpas i'r gemau. Pa les yw gorffen yn 'gyfforddus' yng nghanol y tabl dymor ar ôl tymor. Onid oes mwy o gythraul yn y gemau rhwng timau ar y brig neu deisio osgoi disgyn. Hefyd llai o gemau ar feysydd sy'n cael eu 'hamro' drwy'r tymor, gyda dau dim hŷn a thimau ieuencid yn

CURO'R 'SGARLETS'

Tîm rygbi dan 16 oed Gogledd Cymru



Rhodri Evans ar y chwith, Aaron Gwyn (o Fethel) ar y dde. Dau aelod o Glwb Rygbi Caernarfon oedd yn nhîm Dan 16 gogledd Cymru - "RGC 1404" - a gurodd dim y Scarlets 28-7 mewn gêm hanesyddol ddydd Sul, 7fed Chwefror.

aml. Ni welais y fath gyflwr ar Eithin Duon na'r wythnos diwethaf.

O ffurfio'r fath drefn gellid gwneud cais am 'bloc grant' ar gyfer y rhanbarth. Ffurio polisi pendant o ddatblygiad. Pwyllgorau cryf yn atebol i ddymuniadau clybiau sydd eisiau datblygu. Llai o waith papur yn sicr, ac yn haws trefnu cyrsiau ar gyfer Cynghrair Gyfan. Rhaid gwneud penderfyniad yn fuan neu bydd y frwydr 'rhyng-gynghreiriol' yn gwanhau sylfaen y gêm ar lefel lleol.

DEILYDD Y BELT DU

Dros y blynyddoedd diwethaf bu cynnydd sylweddol yn apêl Karate. Y mae sawl agwedd o'r gamp yma yn apelio i ieuencid. Mae iddi ei apêl gorfforol, ei ffitrwydd ac hefyd elfen gref iawn o hunanddisgyblaeth. Tystia nifer sy'n ymwneud â'r gamp ei bod hefyd yn datblygu hunanhyder.

Un sydd wedi elwa o'r agweddau hyn yw Adam Stuhlfelder, 17 oed o Fethel. Mae Adam yn ymwneud â'r gamp ers pum mlynedd erbyn hyn ac wedi cyrraedd safon lefel un o'r Belt Du. Ar hyn o bryd mae Adam yn cael ei hyfforddi gan Robin, Marvine a Chris, tri Sensei (hyfforddwyr) profiadol llcol.

Mae Adam yn teimlo fod Karate yn ei alluogi i ymlacio ac wedi datblygu ei sgiliau cyfathrebu. Prawf o hyn yw ei fod, erbyn hyn, yn datblygu fel hyfforddwr i'r rhai iau yn y canolfannau yng Nghaernarfon a Phorthmadog. Yn wir, mae'r aelodaeth yn cynyddu'n gyflym iawn yn y canolfannau. Os hoffech wneud cais am yr ychydig lefydd sbâr, cysylltwch ar y rhif 01286 677717.

Ar hyn o bryd mae Adam yn hyfforddi'n galed ar gyfer y sesiynau dethol (grading) ymhenn

pythefnos. Dyma adeg arholiadau'r gamp, ac mae o'n gobeithio y bydd yn symud ymlaen i Lefel 2, Belt Du. Bu Adam yn llwyddiannus yn ddiweddar mewn cystadlaethau gan ennill un fedal arian a dwy efydd. Mae'n tystio fod safon y cystadlaethau yn codi, sy'n glod i'r hyfforddwyr teyrngar ac i ymroddiad yr aelodau.

Mae gan Adam hefyd bedair tystysgrif yn dynodi ei fod wedi cyrraedd y safon angenrheidiol yn yr agwedd o'r gamp sy'n ymwneud â defnyddio 'arfau'r' gamp – y *bo a'r kama*. O siarad gydag Adam, mae'n amlwg ei fod yn hollol ymroddgar i'r gamp. Dymunwn yn dda iddo ar y daith.

RAS MOELYCI

Cynhaliwyd y ras ar fore Sadwrn, 20fed o Chwefror, a hithau wedi gwneud eira eithaf trwchus dros nos. Er hynny, daeth cant o redwyr i herio'r oerni yn y ras, sy'n draddodiadol yn gychwyn y tymor rasio mynyddoedd yn Eryri. Roedd dros chwedeg o'r rhedwyr yn aelodau o Glwb Rhedwyr Eryri, ond roedd eraill wedi mentro yno o swydd Amwythig, swydd Gaerhirfryn a hyd yn oed swydd Efrog.

Roedd rhai o redwyr bro'r 'Eco' yn amlwg yn y ras, gyda Tim Lloyd yn drydydd dros 40 oed, Arwel Lewis yn ail dros 50 oed, Jenny Heming yn ail ferch a Maggie Oliver yn ferch gyntaf dros 60 oed.

Ar y nos Sadwrn, roedd Y Caban, Brynrefail yn orlawn ar gyfer noson wobrwyo y Clwb, gyda sgwrs a lluniau hynod ddiddorol gan Amanda a Tony Heading, a fu'n cystadlu mewn rsus ultra – Amanda yn y Marathon Dcs Sablcs ym Morocco a Tony yn yr Iditasport, sef (*parhad ar dud.19*)